Eddie Jones

RHYDYPENNAU

1876 - 1976

CYFLWYNEDIG I

BLANT AC ATHRAWON RHYDYPENNAU

– DDOE A HEDDIW

CYFLWYNEDIG I

BLANT AC ATHRAWON RHYDYPENNAU

– DDOE A HEDDIW

RHYDYPENNAU

1876 – 1976

Cyhoeddir y gyfrol hon ar achlysur dathlu canmlwyddiant Ysgol Rhydypennau, yn Ebrill 1976.

I gannoedd o feibion a merched yr ardal, fe fydd y dathliad hwn yn gyfle efallai i hel atgofion ac i fwrw cipdrem yn ôl dros ddyddiau plentyndod. I'r genhedlaeth bresennol o blant yr ysgol, hyderwn y bydd yn gyfrwng iddynt ddod i wybod am un agwedd bwysig o hanes eu bro. Er i'r ysgol gyflawni ei phriod waith fel canolfan addysg yn anrhydeddus iawn dros ganrif gron bellach, y mae'n sicr ei bod wedi gwneud mwy na hynny hefyd, oherwydd fe fu hi – ochr yn ochr ag eglwysi'r fro – yn fodd i feithrin cymdogaeth dda, gan roi i do ar ôl to o'i phlant yr ymdeimlad o **berthyn.** Y mae'n parhau i wneud hynny, a chaiff plant Rhydypennau heddiw eu harwain i fwrw eu gwreiddiau'n gadarn yn naear eu bro a'u cenedl.

Yr ydym yn dra dyledus i Mr. Tegwyn Jones, M.A., am baratoi'r erthygl fanwl ar hanes addysg yn yr ardal hyd at 1876. Cyfleir peth o naws a hanes yr ysgol dros y can mlynedd diwethaf drwy gyfrwng detholion o lyfr cofnodion – 'log books' – yr Ysgol, sydd wedi eu cadw'n ddi-dor gan y chwe prifathro yn eu tro, sef Mr. David Evans (1876 – 1878), Mr. John Evans (1879 – 1892), Mr. J. M. Williams (1892 – 1906), Mr. James Davies (1906 – 1938), Mr. E. D. Jones (1939 – 1966) a Mr. Eddie Jones, a fu'n Brifathro er 1966. Ceir yma hefyd atgofion diddan gan bump o gyn-ddisgyblion yr ysgol – Dr. T. Ifor Rees, Mr. Tom Macdonald, Mr. Haydn Morgan, Mr. Ifor Davies a Mr. Alfred Edwards. Mawr yw ein diolch iddynt am roi i ni beth o flas y gorffennol.

H.W.J.
Mawrth 1976.

GOLWG AR HANES ADDYSG YN YR ARDAL, 1740–1876

Tegwyn Jones

Prif amcan y sylwadau canlynol fydd ceisio croniclo hanes codi Ysgol Rhydypennau ganrif yn ôl, ond cyn gwneud hynny priodol fydd taflu cipolwg cyffredinol dros hanes addysg yn yr ardal hon cyn 1870, sef blwyddyn pasio'r Ddeddf Addysg a roddodd fod i'r ysgol.

Cyfeiriadau Cynnar

Un o'r cyfeiriadau cynharaf – os nad y cynharaf oll – at ymgais i ddarparu addysg yn yr ardal yw hwnnw yng nghofnodion Festri'r plwyf sy'n sôn am ryw fath o ysgol a gynhelid yn eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn. Ar 27ain o Ebrill 1740 daeth Thomas Pryse, Gogerddan i gyfarfod o'r Festri

> who then exhibited a bond of £60 to ye church wardens of ye parish (dated) ye 7 April 1740, being a legacy left by one David John by his last Will and Testament towards ye keeping of a Charity School in the aforesaid parish church, and its interest yearly to be paid to ye aforesaid parish church for ever[1]

Yn nes ymlaen yn yr un cofnodion (yng Ngorffennaf 1757), cyfeirir at athro'r ysgol hon sef "John Williams, schoolmaster of ye Charity School", ond ychydig iawn ar wahân i hynny a wyddys amdani ac am yr addysg a gyfrennid ynddi. Ond y mae'n amlwg iddi gael rhyw fesur o lwyddiant oherwydd cymhellwyd eraill ar ôl y David John (neu Jones) uchod i adael arian iddi yn eu hewyllys. Pan alwodd yr hanesydd Samuel Meyrick yn eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn tua 1803 sylwodd ar fwrdd hysbysu ar un o furiau'r eglwys ac arno'r geiriau hyn:

> Benefactors to this Parish
>
> David Jones late of Cevngwyn Yeoman left sixty Pounds, the interest thereof towards teaching poor children of this Parish. Hugh Edward of Cynnullmawr left five Pounds, the interest thereof to the same use. Evan Watkin late of Cynnullmawr left twenty Pounds the Interest thereof to the same use.
>
> Rich^{d} Morg^{n} Ch^{ch} War^{dn} 1762[2]

Bu'r gwaddolion hyn yn fodd i gadw ysgol yn eglwys Llanfihangel, ac wedi hynny yn yr ysgoldy uwchlaw'r pentre, am flynyddoedd lawer, ond ceir sôn am hynny yn nes ymlaen.

Ysgolion Griffith Jones

Un o uchelfannau hanes addysg yng Nghymru oedd y mudiad a gododd o awydd angerddol Griffith Jones, Llanddowror i ddysgu ei gyd-Gymry i ddarllen y Beibl. Ym 1731 ysgrifennodd lythyr at y Gymdeithas er Hyrwyddo Gwybodaeth Gristionogol (S.P.C.K.) yn crefu ar ei swyddogion yn Llundain i anfon iddo ddeugain neu hanner cant o Feiblau Cymraeg a fyddai'n fodd i hwyluso'i gynllun i sefydlu ysgol lle bwriadai ddysgu plant ac oedolion ei blwyf i ddarllen. Yr oedd yn ymwybodol iawn hefyd o'r un angen y tu allan i ffiniau Llanddowror, a chyda help boneddigion cefnog a hael aeth ati i hyfforddi athrawon ieuanc er mwyn eu hanfon i gynnal dosbarthiadau darllen led-led Cymru. Diddorol yw'r ffaith fod cofnod am o leiaf ddwy o'r ysgolion hyn ym mhlwy Llanfihangel Genau'r-glyn.[3]

Bob blwyddyn cyhoeddai Griffith Jones lyfryn bach yn dwyn y teitl **Welch Piety** lle cofnodai fanylion am ei ysgolion cylchynol, a detholiad o lythyron oddi wrth offeiriaid ac eraill yn tystiolaethu i'w llwyddiant, a phan fu ef farw ym 1761, parhawyd i wneud hynny gan un o'i noddwyr amlycaf, Madam Bevan, a aeth â'r gwaith da rhagddo. O droi i rifyn 1765/6 ceir, ymhlith y rhestr o'r Ysgolion Elusennol hyn yng Ngheredigion, y cofnod canlynol:

Ceiro fach in Lanvihangel-gener-glyn Parish 131
Another school in d^{O} 64
Night school in . . . . . 50[4]

Dyna felly gyfanswm o 245 o blwyfolion Llanfihangel Genau'r-glyn a fu'n mynychu ysgolion Griffith Jones yn ystod gaeaf 1765 – 6. Ysgol ar gyfer y rhai a rwystrid gan eu gwaith rhag ei mynychu yn ystod y dydd oedd y "night school", ac y mae'n amhosibl dweud ai yng Ngheiro-fach yntau yn yr ysgol arall y cynhelid hi. Bwthyn bychan nid nepell o fferm Aberceiro oedd Ceiro-fach (neu Aberceiro-fach efallai, er mai fel arall y cyfeirir ato yn ddieithriad yn y gwahanol gofnodion sydd ar gael), a dywed Mr. Alfred Edwards wrthyf fod darnau o'r muriau i'w gweld o hyd yn un o gloddiau'r Ruel Uchaf. Y cyfeiriad olaf a welais i ato yw hwnnw yng nghofrestr claddedigaethau eglwys Llanfihangel sy'n cofnodi angladd 'John Evans Ceirofach' ym mis Mawrth 1856, ac o bosib peidiodd â bod yn dŷ annedd yn fuan wedyn.

Yn yr un rhifyn o'r **Welch Piety**, t.14, argreffir llythyr oddi wrth offeiriad Llanfihangel at Madam Bevan sy'n dangos ei fod ef, a'r rhai a fanteisiodd ar yr ysgolion, yn llawn gwerthfawrogiad:–

Llanvihangelgenerglyn in Cardiganshire, Feb 15, 1766.

Madam,

This is to return you my sincere Thanks, for the great Benefit and Blessing we received in this Parish, by means of your **Welch Charity School**; and likewise to certify, that **John Richard**[5] , Master thereof, has behaved agreeable to the Rules prescribed him. He is very diligent and laborious in his Calling, well belov'd in the Parish, and has had very great Encouragement, as you will find by this account.

Many of his Scholars said their Catechism last Sunday in Church, and gave the Meaning of several Parts of it to our general Satisfaction. As the School is full, and many Beginners in it, I humbly desire you to let it continue for another Quarter. And may God Almighty bless and reward you, and all others that contribute to this most excellent Charity, is the hearty Prayer of

M. Williams, Minister of the aforesaid Parish.

Ond er gwaethaf deisyfiadau'r offeiriad, nid oes gyfeiriad pellach at ysgol o'i bath yn y plwyf hyd 1773/4 pan geir y cofnod hwn yn y **Welch Piety**:

Penybank in Llanvihangel genau'r Glyn Parish 75
Another school at ditto 51

Anodd dweud ai cyfeirio at Geiro-fach a wneir wrth sôn am 'ysgol arall' neu a oedd hon yn un wahanol. Goroesodd Pen-y-banc – neu o leiaf mae adeilad o'r un enw yno heddiw, rhwng Dol-gau a'r Fagwyr ar y llaw dde wrth deithio o Rydypennau i Dal-y-bont.

Ysgol Ramadeg Llanfihangel[6]

Soniwyd uchod am yr arian, sef nifer o waddolion a oedd wrth law ym mhlwy Llanfihangel Genau'r-glyn i ddarparu rhyw fath o addysg ar gyfer rhai o'r plant tlawd. Gwelwyd mai yn yr eglwys ei hun y cynhelid yr ysgol i ddechrau, ond ym mlynyddoedd cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg – yn fuan ar ôl 1806 yn ôl David Samuel, Aberystwyth – codwyd ysgoldy pwrpasol lle gellid o hynny allan gynnal ysgol ddyddiol. Gellir gweld yr adeilad hwnnw ar y llechwedd gyferbyn ac uwchlaw hen orsaf y rheilffordd. Lewis Evans, a ddaeth yn offeiriad i Lanfihangel Genau'r-glyn ym 1806, a gŵr a ymffrostïai iddo unwaith weld John Wesley yng Nghaerfyrddin, a'i sefydlodd, ond er

bod ei chysylltiad â'r Eglwys Sefydledig yn un clos iawn, ni waherddid plant i rieni ymneilltuol rhag ei mynychu.Dewisid y disgyblion drwy fwrw coelbren, a byddai disgwyl iddynt gyfrannu rhyw ychydig at eu haddysg oherwydd bernid nad oedd y gwaddolion eu hunain yn ddigon i gynnal yr ysgol. Gellid tybio mai paratoi bechgyn ar gyfer yr offeiriadaeth oedd prif nod Ysgol Ramadeg Llanfihangel, ac fel meithrinfa i Goleg Ystrad Meurig y meddylid amdani ar y dechrau. Yn wir yr oedd prifathro'r Coleg hwnnw ym 1894 yn cofio, pan oedd ef ei hun yn ddisgybl yno, am fechgyn ieuanc yn dod i Ystrad Meurig o ysgol Llanfihangel i gwblhau eu haddysg, a'u bod i bob golwg, meddai ef, wedi derbyn hyfforddiant bur effeithiol cyn dod.

Un o ddisgyblion enwocaf yr Ysgol Ramadeg hon – er mai dwy flynedd yn unig a dreuliodd ynddi – oedd Lewis Edwards, Y Bala, Dywed ef ei hun am hen flaenor o Aber-ffrwd, a oedd yn anfon dau o'i feibion i'r ysgol yn Llanfihangel, yn ceisio dwyn perswâd ar ŵr Pwllcenawon i yrru Lewis ieuanc yno hefyd, ac ar ôl llwyddo, yn mynd yn llawen ac ar ei union i drefnu llety i'r llanc yn nhŷ ei gyfyrder, gŵr o'r enw Richard Davies, ym Mhen-y-garn. "Offeiriad o'r enw Jones oedd yr athraw," meddai Lewis Edwards wrth adrodd ei atgofion. "Yr oedd yn un o'r athrawon goreu a gefais erioed. Meddai y gallu i ddenu y plant i'w hoffi. Ond yn fuan ar ôl i mi fyned yno bu farw, a daeth offeiriad arall o'r enw Hughes i'w le. Ysgolhaig gwych oedd yntau, ond ni wyddai y ffordd i galon y plant."[7] Hwn mae'n debyg oedd yr Hugh Hughes a fu'n athro tua'r cyfnod y sonnir amdano ac a oedd yn ddiarhebol am guro'i ddisgyblion. Aeth Lewis Edwards o ysgol Llanfihangel ar ôl blwyddyn, ond ar ôl ysbaid yn ysgol enwog John Evans y mathemategydd yn Aberystwyth dychwelodd – ym 1826 – i Lanfihangel drachefn.

Ymhlith disgyblion nodedig eraill yr ysgol gellir enwi John Jones, Glanleri, Robert Roberts, Richard Lumley, J. Ceulanydd Williams (Ceulanydd) a David Adams, Tal-y-bont. Yn ystod ei arhosiad ef yn yr ysgol aeth yn fwy eglwysig ei naws ac yr oedd disgwyl i'r plant a'i mynychai bellach fynd i'r llan ar y Sul. Tynnwyd Adams oddi yno gan ei rieni, a thebyg nad ef oedd yr unig un a gefnodd arni am yr un rheswm.

Pan aeth Comisiynwyr ei Mawrhydi ar daith drwy Gymru i gasglu gwybodaeth ar gyfer eu Hadroddiad ar Addysg yng Nghymru, 1847 (a chyflawni drwy hynny Frad y Llyfrau Gleision!), yr oedd y "Charity or Endowed School" yn Llanfihangel yn un o'r ysgolion a roddwyd o dan eu chwydd-wydr. Yr oedd dau a deugain o blant ar eu llyfrau bryd hynny, a rheini wedi eu dewis o gylch gweddol gyfyng,

oherwydd dau ohonynt yn unig a drigai fwy na milltir a hanner o'r ysgol. Llwyddodd yr ysgol at ei gilydd i greu argraff led ffafriol ar J. C. Symonds a ddaeth i'w hedrych ar ran y Comisiwn. Meddai yn ei adroddiad:

> The boys appeared to be only partially instructed. Two, however, were learning Latin, and had a very good knowledge of the grammar. They all read tolerably well; and the cyphering and writing were above the average in county schools.[8]

Cyfeiriodd Symonds at y gwaddolion y soniwyd amdanynt uchod:

> There are some complicated charities in this parish . . . but I was informed by the Vicar that he considered that 11 poor children had a right to have a free education in this school; but by an arrangement made by the late Vicar, twenty-two were educated at a payment of 2/- per quarter instead, to which no objection was made by the parishioners.[9]

Ni roddir enw'r prifathro a oedd yno pan alwodd Symonds, ond dywedir mai llanc pedair ar bymtheg oed ydoedd, a'i fod newydd ymgymryd â'r swydd ar ôl bod am gwrs blwyddyn yn yr York Diocesan School. Ei gyflog ddechreuol oedd £9 y flwyddyn.

Addysg glasurol yn ôl pob tystiolaeth a gyfrennid yn Ysgol Ramadeg Llanfihangel Genau'r-glyn, ac yr oedd hynny'n wir am y rhan fwyaf o ysgolion eraill o'i bath yn y cyfnod. Bu David Samuel, Aberystwyth yn sgwrsio ym 1894 â hen ŵr o'r enw Dafydd Jones, gynt o Aberceiro, ond a drigai erbyn hynny ym mhersondy Llangynfelyn, a gallai ef adrodd ar dafod leferydd, ac yn yr ieithoedd gwreiddiol, ddarnau helaeth o'r Iliad ac o fugeilgerddi Fyrsil a ddysgodd pan oedd yn ddisgybl yn ysgoldy Llanfihangel. Caewyd yr ysgol nodedig hon ym 1879 wedi iddi gwblhau dros ddeng mlynedd a thrigain o wasanaeth canmoladwy i'r plwyf.

Ysgolion eraill yr ardal yn y 19eg ganrif.

Nifer cyfyngedig o ddisgyblion, fel y gwelwyd, a gâi fynediad i'r Ysgol Ramadeg, a rhaid holi felly beth oedd y dewis a wynebai blant eraill yr ardal yr oedd eu rhieni yn awyddus iddynt gael rhyw gymaint o addysg?

Meddai Owen Owen, athro ysgol yn Nhaliesin, wrth Gomisiynwyr 1847:

> In our district . . . . . the people are too poor to support good schools : they are 4 to 1 Dissenters, and the rich are backward to support schools except on the National system (sef ysgolion o dan nawdd Eglwys Loegr).[10]

Ni ddaeth dyddiau addysg orfodol eto, a hyd Ddeddf Addysg 1870 mater o hap a damwain fyddai cael ysgol mewn ardal o gwbl, a hyd yn oed pan geid un, eithriad mawr fyddai cael un dda:–

> Yr oedd y rhai hyn yn ddi-lun a diffrwyth (meddai cofianwyr David Adams, Tal-y-bont). . . . y plant yn mynd ac yn dyfod fel y byddai cyfleusterau cartref a maes a magu'r baban yn caniatau; a'r "ysgolfeistr" teithiol hefyd – clerigwyr, morwyr, milwyr – yn dyfod ac yn mynd, yn dyfod am fywoliaeth ar y ffordd i fywoliaeth well.[11]

Gwelir gwirionedd hyn oll wrth i ni ystyried yn frysiog y gwahanol sefydliadau addysgol a geid yn yr ardal hon yn ystod y ganrif ddiwethaf.

Ym 1842 codwyd ysgoldy gan yr eglwys yn y Borth a hyd nes adeiladu Eglwys San Mathew yno ym 1865, yma y byddai eglwyswyr y cylch yn cwrdd i addoli. Ond yn ystod yr wythnos cynhelid ysgol ddyddiol yma o dan nawdd yr Eglwys, a honno yn barhad o ysgol ddyddiol gynharach a gynhelid am flynyddoedd mewn bwthyn a safai gynt ar yr un safle. Ysgol rydd ydoedd bryd hynny, ac felly y parhaodd am ysbaid ar ôl codi'r ysgoldy newydd, ond yn raddol aeth yn fwy-fwy eglwysig ei naws, nes yn y diwedd ei chyfyngu i blant a fynychai gwasanaethau'r Eglwys yn yr ysgoldy ar y Sul. Ond cyn ei chyfyngu felly y mae tystiolaeth fod plant o gyfeiriad Dôl-y-bont a Llandre yn ei mynychu. Un o'r rheini oedd y Parch Enoch Watkin James, Bryn-llys – meddyg esgyrn ymhlith pethau eraill – a chadeirydd y Bwrdd Ysgol lleol pan agorwyd Ysgol Rhydypennau ym 1876.[12]

Cyfeiriwyd uchod at ymweliad y Comisiynwyr â'r Ysgol Ramadeg yn Llandre, a diddorol yw sylwi iddynt alw hefyd mewn dwy ysgol arall yn ymyl. "Bow Street School" yw'r enw a roddir ar un ohonynt, ac ar Dachwedd 25ain 1846 pan ddaeth D. B. Price, un o gynorthwywyr y Comisiynwyr, yno ar ymweliad, yr oedd yr ysgol yn wythnos union oed. Cystal dyfynnu yn y Saesneg gwreiddiol ei ddisgrifiad ohoni:–

> The school was held in a room in an unoccupied dwelling house. The room was lighted by 2 small glazed windows, one

> in front and the other in the back, in which there were very few panes not broken. There was a fireplace in the room, but no fire. The floor was made of earth; it was tolerably dry, but rather uneven. The room appeared very deficient in furniture; there was a chair there for the master, but no table of any kind in the room. There were long deal planks supported on large stones, placed round the room which served the purpose of benches for children.[13]

At ei gilydd, medd yr adroddiad, medrai'r plant ddarllen yn lled dda. Tri yn unig a fethodd ateb y cwestiwn, Pwy greodd y ddaear? Ond o'r dosbarth i gyd (sef naw o blant y diwrnod hwnnw er fod pump ar hugain ar y llyfrau) pedwar yn unig a wyddai o ba ddefnyddiau y gwnaed Adda. Clywsant i gyd am y Frenhines Victoria, a gwyddent ei bod yn teyrnasu dros Loegr a Chymru. Pan ofynwyd iddynt a oedd ei hawdurdod yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau'r cyfryw wledydd d'oedd neb yn gwybod. Gŵr deugain mlwydd namyn un oedd yr athro, a bu'n dysgu plant, meddai, er pan oedd yn ddeunaw, ond yr oedd yn gwbl ddi-hyfforddiant. Ychwanegir yn yr adroddiad mai drwy'r Saesneg yn unig y cyfrennid yr addysg yn yr ysgol hon.

Ar yr un diwrnod – Tachwedd 25ain, 1846, – aeth J. C. Symonds i ymweld â'r "Penygarn Adventure School."

Meddai yn ei adroddiad yn ddiweddarach:

> It is kept in a damp cottage by the roadside, converted into a schoolroom by simply replacing the furniture with a few crazy benches, and a chair, and a couple of tables. The floor is damp ground and there is scarcely sufficient light to read by in broad daylight, without going close to one of the two miserable little windows which alone light this den.[14]

Incwm blynyddol yr ysgol, meddir, oedd £20 y flwyddyn, a chyfraniadau'r plant oedd yr unig ffynhonnell. Ond er gwaetha'r ymddangosiad anaddawol hwn, cafodd Symonds ei siomi ar yr ochr orau yn ysgol Pen-y-garn, ac y mae'n amlwg iddo gael ei swyno gan y brifathrawes ieuanc yno:

> I found far more progress and acquirement in this school than in most others, owing entirely to the natural ability and unusually good education of the teacher, a young married woman named Jane Thomas, who has an attendance of upwards of 40 children during the year . . . . No particular

> method of teaching was adopted, but the Babel fashion, of every child learning its lesson aloud was repudiated in this school, and the mistress appeared to have succeeded in imparting much of her own knowledge and acquirements to her little pupils in her own homely method, sometimes by class, and sometimes by individual instruction . . . . She read with them, and some of them pronounced very nicely; and she questioned them with tolerable fulness on the meaning of words, and on the simple points elicitated by the subject.[15]

Holodd Symonds beth ar y plant ei hun, ac ar y cyfan plesiwyd ef yn yr atebion:

> I asked them the meaning of agriculture, using the English word, and they immediately answered me correctly in Welsh. To the question, What is anatomy? I had the answer in Welsh, "Cutting up a body" . . . They also gave many correct answers in geography and to a certain very limited extent were able to do mental arithmetic.[16]

Er mai Cymraeg oedd iaith y plant, Saesneg yn unig oedd iaith yr ysgol a'i holl hyfforddiant. Sylwodd Symonds fod y merched ar y blaen i'r bechgyn:

> The boys were very backward . . . . most of (them) had been at the school at Llanfihangel, and seemed to have learnt nothing there . . . . The mistress does not appear to give the same attention to the boys which she pays to the girls, some of whom write well and are remarkably proficient in spelling . . . . Several of the children learn sewing and fancy work, which she seemed quite competent to teach.[17]

Gwraig ieuanc bedair ar hugain oed oedd Jane Thomas ac yr oedd newydd briodi pan gyfarfu Symonds â hi. Fel ei chyd-athro yn yr ysgol arall yn Bow Street, cwbwl ddi-hyfforddiant oedd hithau, ond ei bod, mae'n amlwg, o alluoedd naturiol uwchlaw'r cyffredin a chanddi reddf ysgolfeistres dda. Meddai Symonds wrth gloi ei adroddiad am yr ysgol:

> The mistress is desirous of improving her natural capacity, which I do not hesitate to say is considerable, in a good training school; were she enabled to do so, she would in all probability prove an excellent mistress.[18]

Byddai'n ddiddorol gwybod a gafodd Jane Thomas ei dymuniad.

Ac aros am funud yn y flwyddyn 1846, dyma'r flwyddyn ym marn Daniel Thomas, Dôl-y-bont y sefydlwyd Ysgol Sul yn ffermdy'r Henllys gerllaw ei bentre genedigol.[19] Yn ddiweddarach meddai, trwy garedigrwydd rhyw Mr. James codwyd ysgoldy cyfleus yn y pentref lle gellid cadw ysgol ddyddiol yn ogystal ag Ysgol Sul, cwrdd gweddi a seiat. (Tynnwyd yr ysgoldy hon i lawr yn ddiweddarach ar ôl adeiladu capel y Babell). Cofiai Daniel Thomas, a fu'n ddisgybl ynddi, am un ysgolfeistr arbennig sef John Jenkins a ddaeth yno o sir Benfro, ac wrth sôn amdano dengys fod yr ysgol wedi denu disgyblion o gylch eang:

> Yr oedd wedi argraphu ar feddwl y plant a'u rhieni ei fod yn ysgolhaig heb ei fath yn yr adeg hono, a thrwy hyny yr oedd y plant yn dyfod yno o bob cyfeiriad – o Llanfihangel, Penygarn, Talybont, Doleu, Staylittle (ger Taliesin) heb law plant Dol-y-bont, a'r gymmydogaeth.[20]

Y prif bynciau ar amserlen yr ysgol hon oedd gramadeg Saesneg a Lladin. Talai'r rhieni 3/6 y chwarter am addysg pob plentyn i ddechrau, ond cynyddai'r tâl am bob chwarter ychwanegol o addysg a dderbynnid. Yn ychwanegol at hyn yr oedd yn ofynnol i'r plant dalu eu hunain am eu "llyfrau, copiau, llechi, ingc, 'steels' &c." Ar wahân i'r ffaith fod Mr. Jenkins yn "ysgolhaig" y ffaith arall amdano a gofiai Daniel Thomas dros drigain mlynedd yn ddiweddarach oedd ei fod yn yr haf yn gwisgo gwasgod wen, 'frock coat' a het silc – "y cyntaf oeddym ni, y plant, wedi weled yn gwisgo felly mewn pentref gwledig fel Dol-y-bont".[21]

Mewn traethawd anghyoeddedig yn dwyn y teitl "Hanes Addysg yn yr ardal" mae'r awdur, y diweddar James Davies a fu'n brifathro Ysgol Rhydypennau o 1906 hyd 1939, yn cyfeirio at y "Ladies School" a gynhelid tua 1855–6 ar "llofft Ty Bach Capel" ym Mhen-y-garn. Ysgol i ferched hŷn yn unig oedd hon a chedwid hi gan Frances Humphreys.[22] Byr fu ei hoedl – rhyw ddwy neu dair blynedd ar y mwyaf – a gellir tybio mai eu hyfforddi i weithio 'samplers' oedd prif swm a sylwedd yr "addysg" a gyfrennid i'r merched.

Yn yr un traethawd mae James Davies yn cyfeirio at y traddodiad fod ysgol wedi ei chynnal unwaith mewn bwthyn ym Mhen-rhiw, Nantafallen. Yn anffodus ni chynigir dyddiad iddi, ond tybir mai ysgol i'r plant lleiaf ydoedd, ac y byddai'r goreuon yn symud maes o law i'r Ysgol Ramadeg yn Llandre neu i ysgol Clarach. Enwir John Thomas, mab Thomas Thomas, Pen-y-garn a fu'n athro yno. Clywsai James

Davies hefyd am ysgol arall a gynhelid unwaith "mewn ystafell fechan rhywle yn agos i'r lle y saif y Post Office yn awr", ond nid oes ganddo fanylion pellach yn ei draethawd. Tybed ai hon oedd y "Bow Street School" yr ymwelodd D. B. Price a hi ym 1846? A dyma'r fan efallai i gyfeirio at yr Edward Lewis hwnnw y cofnodir ei farw yn yr *Haul* ar y 24 ain o Fawrth 1843,[23] yn 68 mlwydd oed. Brodor o Lanfihangel Genau'r-glyn ydoedd yn ôl yr *Haul* ac am ddeugain mlynedd bu'n athro yn ysgolion Madam Bevan mewn gwahanol fannau yn y De cyn dychwelyd i'w gynefin "a chadw ysgol yno". Ai un o athrawon yr Ysgol Ramadeg oedd Edward Lewis tybed, neu a ddylem ychwanegu'r ysgol hon at gyfanswm yr ysgolion a fu unwaith yn yr ardal? Nid oes ateb yn y cofnod hwn, ond telir teyrnged uchel i ddawn Edward Lewis fel ysgolfeistr.

Dywedir yn y 11yfryn **Capel y Garn 1793 – 1966** [24] fod Tŷ Capel y Garn wedi ei ail-adeiladu ym 1870, ac y cynhelid ysgol ddyddiol yno "am beth amser cyn agor Ysgol Fwrdd Rhydypennau yn 1876." Tebyg mai hon yw'r "Bow Street. P" (sef 'Private') a enwir yn fynych yn chwedegau a saithdegau'r ganrif ddiwethaf yng nghofrestri ysgolion Penrhyn-coch, Clarach a Thal-y-bont, yn y golofn lle nodid ym mha le y derbyniodd y plentyn ei addysg – os bu iddo dderbyn peth o gwbl – cyn dod i'w ysgol bresennol. Gresyn na byddai gennym mwy i ddweud am yr ysgol hon.

Rhaid peidio anghofio ychwaith yr ysgolion hyn a sefydlwyd o dro i dro ar gyrion yr ardal, oherwydd yr oedd i rai ohonynt hwythau eu rhan yn hanes addysg yr ardal hon. Ym 1862 agorwyd Ysgol Genedlaethol (hynny yw, ysgol o dan nawdd yr Eglwys) ym Mhenrhyn-coch, ac y mae digon o dystiolaeth fod rhieni'r ardal hon wedi manteisio arni ac anfon eu plant yno. Plant i eglwyswyr hwyrach oedd llawer ohonynt, ond er mor ddrwgdybus ydoedd yr ymneilltuwyr o'r ysgolion Cenedlaethol hyn, eto cymaint oedd awydd rhai ohonynt i'w plant gael addysg ffurfiol nes eu bod yn barod i anwybyddu'r pwyslais a roddid ynddynt ar ddysgu'r holwyddoreg eglwysig ac anfon eu plant yno beth bynnag. Dyma enwau rai ohonynt o Gofrestr Ysgol Penrhyn-coch[25] ynghyd â dyddiadau eu mynediad yno:

6 Mawrth 1871 John Rees Tregonig, Bow Street.
20 Tachwedd 1871 Charles Vaughan, Bow Street.
9 Rhagfyr 1873 Mary Jane James, Bryngwynisaf.
19 Ionawr 1874 Anne, Thomas a Richard Lewis, Bryngwyncanol.

Un arall a droediai'n feunyddiol o Cross Street dros y banc ac i lawr heibio fferm y Cwrt i ysgol Penrhyn-coch oedd Hannah Evans (Jones

yn ddiweddarach), merch plisman y pentref a mamgu Elystan a Deulwyn Morgan.[26]

Ceir yr un math o dystiolaeth yng Nghofrestr Ysgol Tal-y-bont.[27] Dyma rai o'r enwau a welir yno. 1870 William Morgan, Bow Street, 1872 William Rees, Felingyffin, Robert Bishop Ty'n chwarel (hwn oedd y disgybl-athro yn Ysgol Rhydypennau pan agorwyd hi yn 1876), Thomas Davies, Bow Street, James Griffiths, Dol-gau. Cyn dod i Dal-y-bont buasai pob un o'r rhain yn mynychu'r "Bow Street School." Er mai Cofrestr 1876[28] yw'r cynharaf a gadwyd o Ysgol yr Eglwys Clarach gwelir yma eto fod nifer o blant Bow Street ar ei llyfrau, a theg yw casglu mai dyna'r arferiad er pan codwyd hi. Er nad yw cofrestr Ysgol Frytanaidd y Borth a agorwyd ym mhen ucha'r pentre ym 1864 ar gael, nid yw'n amhosibl fod plant o ochrau Llandre wedi ei mynychu yn ei blynyddoedd cynnar. Y mae'n sicr i hynny ddigwydd ar ôl ei throi yn Ysgol Fwrdd ym 1871–2 fel y ceir gweld yn nes ymlaen.

Yr ysgolion Sul

Anghyflawn fyddai crynodeb o hanes addysg mewn unrhyw fro yng Nghymru heb gyfeiriad at gyfraniad mawr yr Ysgol Sul. Thomas Charles o'r Bala a sylweddolodd gyntaf cymaint o fwlch a adawyd pan fu farw Griffith Jones, a phan ddihoenodd ei ysgolion cylchynol yn raddol heb ei arweiniad ef. Ceisiodd barhau'r un cynllun i ddechrau, ond ni bu llwyddiant ar hynny. Yna penderfynodd gynnal ysgolion – i blant ac oedolion – ar y Sul. Yr oedd y manteision yn ddeniadol. Athrawon gwirfoddol, di-dal fyddai'n dysgu ynddynt, a chan mai ar y Sul y cynhelid hwy nid ymyrrent a gwaith a gorchwyl y disgyblion. Yr oedd rhai anfanteision er hynny – pobl heb eu hyfforddi fyddai'r athrawon hyn hefyd, a dim ond am awr yr wythnos y caent gyfle ar eu dosbarthiadau. Yn naturiol wedyn, rhaid oedd cyfyngu'r hyfforddiant bron yn gyfangwbl i un peth, sef dysgu darllen. Ond yr oedd sel a brwdfrydedd yr athrawon yn gwneud iawn am lawer o ddiffygion y drefn a'u diffygion hwythau, a'r ffaith syfrdanol yw mai yn yr ysgolion Sul hyn yn unig o tua 1785 hyd bron ddiwedd y ganrif ddiwetha y cai plentyn o Gymro ddysgu darllen ei iaith ei hun.

Nid oedd prinder ysgolion Sul yn yr ardal hon, er mai prin at ei gilydd yw'r manylion ar gadw amdanynt. Bu ysgol lewyrchus yng Nghapel y Garn o'r dechrau, ond gan fod rhai aelodau yn byw braidd yn bell o'r capel, darperid ar eu cyfer drwy gynnal ysgolion mewn tai annedd yn nes i'w cartrefi. Ymhlith y rhai y mae cof amdanynt mae'r ysgol a gynhelid mewn tŷ annedd yn Llandre cyn codi'r ysgoldy –

Bethlehem – yno ym 1876[29]. Yn wir, y mae Daniel Thomas yn cyfeirio at ysgol Sul a gynhelid yn Llandre cyn codi capel ym Mhen-y-garn erioed – ysgol a gyfarfyddai yn nhŷ Evan a Mary Simon.[30] Cynhelid ysgol arall perthynol i'r Garn ym Mhen-cwm, a'i symud i Fryngwyn-mawr wedi i'r teulu symud o'r naill le i'r llall.[31] Mewn ysgol Sul a gynhelid ym Mhwll-glas meddir, y clywodd J. J. Williams, Taigwynion y chwedl am Gantre'r Gwaelod am y tro cyntaf a'i hanfarwoli'n ddiweddarach mewn cerdd a ddaeth yn un o'r rhai mwyaf cyfarwydd yn yr iaith.[32] A chyn codi'r ysgoldy yng ngwaelod pentref Bow Street, yr oedd ysgol yno hefyd yn cwrdd bob Sul mewn tŷ annedd.[33]

Pan ddaeth y Comisiynwyr heibio ym 1846 yr oedd yr ysgol Sul a gynhelid yng Nghapel y Garn ei hun yn un o'r rhai yr ymwelwyd â hwy, ac nid anniddorol efallai fydd nodi rhai o'r ystadegau a welir yn eu hadroddiad. Rhoddir canmoliaeth i'r adeilad a'r dodrefn, a dywedir fod yno gyfanswm o 310 o ddisgyblion (142 o dan bymtheg oed a 168 dros yr oedran hwnnw), a dysgid y bechgyn a'r merched ar wahân. Yr oedd i'r ysgol 45 o athrawon, yn cynnwys 5 athrawes, ac yr oedd y pwyslais yn drwm ar ddysgu darllen yr Ysgrythur. Yn wahanol i ysgolion dyddiol yr ardal yn yr un cyfnod yr oedd yr hyfforddiant yma yn un trwyadl Gymraeg.[34]

Gan fod cymaint o lewyrch ar ysgolion Sul y Methodistiaid Calfinaidd yn y cylch, naturiol ddigon oedd i rai o'r enwadau eraill geisio eu hefelychu. Dywed Azariah Shadrach – un o arloeswyr yr Annibynwyr yng ngogledd Ceredigion – iddo bregethu lawer tro yn y Bryngwyn-bach[35] a'r tebygolrwydd yw fod yno ysgol Sul yn cwrdd yn rheolaidd ym mlynyddoedd cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg. O leiaf gwyddys mai dyna oedd yn wir am nifer o fannau eraill a enwir ganddo – megis Coedgruffudd a Thŷnewydd, Cwmsymlog, – lle byddai'n pregethu o dro i dro. Mae'n hysbys fod gan yr Annibynwyr ysgol Sul yng Nghlarach – ysgol a gafodd gartref mewn tri thŷ annedd yn yr ardal cyn codi capel Hephsiba ym 1837, sef Ty'rabi, Porthangel a Thy'n-pwll,[36] a diau i'r rhain ddenu ambell un o Bow Street i'w mynychu. Dyna, beth bynnag, a awgrymir gan enwau rhai o aelodau cynnar Hephsiba, fel y cofnodwyd hwy yn y Llyfr Aelodaeth cyntaf,[37] enwau megis Jane Edwards, Nantafallen, William Edward, Shoemaker, Bow Street, Evan Jones, Bow Street a Jane Jones, Caergywydd. O ddiwedd y chwedegau ymlaen ceir hanes am ysgol Sul lewyrchus gan y Bedyddwyr – o dan nawdd Horeb, Penrhyn-coch – yn cwrdd mewn ty yn Bow Street. Mor llewyrchus yn wir (yr oedd rhwng 40 a 50 yn dod ynghyd bob Sul ym 1870) nes bod gobeithion uchel ymhlith Bedyddwyr lleol ar y pryd y gwelid eglwys Fedyddiedig yn y pentref ar fyrder.[38]

Y Bwrdd Ysgol a chodi Ysgol Rhydypennau

Er mai trychinebus fu canlyniad Deddf Addysg 1870 o safbwynt yr iaith Gymraeg, ni ellir gwadu ei phwysigrwydd yn hanes datblygiad addysg yng Nghymru. Nid dyma'r lle i'w thrafod yn fanwl, ond i bwrpas yr ychydig sylwadau hyn bydd yn gyfleus i gadw mewn cof y ffeithiau canlynol. Prif bwrpas y Ddeddf oedd sicrhau addysg elfennol ffurfiol i bob plentyn rhwng pump a thair ar ddeg oed, ond cyn y gellid gwneud hynny yr oedd yn rhaid ychwanegu'n sylweddol at rif yr ysgolion a oedd eisioes yn bod, ac yr oedd darpariaeth yn y Ddeddf ar gyfer hynny. Y cam cyntaf i unrhyw ardal bellach a deimlai ar ei chalon fod angen ysgol newydd yno fyddai ethol Bwrdd Ysgol (o ddim mwy na phymtheg aelod), a hwnnw wedyn fyddai'n edrych ar y sefyllfa ac yn paratoi adroddiad i'w anfon i'r Adran Addysg (fel yr oedd bryd hynny) yn Llundain. Os cytunai'r awdurdodau yno fod y cais yn un teg a bod angen ysgol yn yr ardal, yna byddai'r ffordd yn glir i'r Bwrdd fenthyca arian i'w chodi. Syrthiai'r baich o'i chynnal yn ariannol ar ôl ei chodi ar ysgwyddau'r trethdalwyr. Mewn ardal lle'r oedd ysgol eisioes yn bod gallai'r Bwrdd – gyda chydsyniad yr ymddiriedolwyr – ei chymryd o dan ei adain yn lle codi ysgol newydd.

O'r Borth y daeth y symudiad cyntaf i sefydlu Bwrdd Ysgol o fewn ffiniau hen blwyf Cyfoeth y Brenin, a hynny mewn cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yno yn niwedd Ionawr 1871. Pan aed i bleidlais ar y mater gwelwyd fod 96 dros "anfon at y Pwyllgor Addysg am yr awdurdod angenrheidiol i ethol y cyfryw fwrdd", a 22 yn erbyn. Cyngor offeiriad Llanfihangel – y Parch John Jones – i'r cyfarfod oedd pwyllo ac oedi hyd nes "ceid gweled pa fodd y gweithiai y gyfraith newydd mewn mannau eraill."[39] Ychydig wythnosau yn ddiweddarach – ar Fawrth 16eg – cynhaliwyd dau gyfarfod pwysig arall i'r un perwyl yn yr ardal – y naill am ddau o'r gloch yn Nhŷ'r Clwb yn Llandre a'r llall am bedwar o'r gloch ym Mhen-y-garn (ni nodir y fan yn fanylach na hynny). Cadeiriwyd y cyfarfod yn Llandre gan T. James, Ty'n-rhos, a phan roddwyd cynigiad o blaid sefydlu Bwrdd Ysgol yn yr ardal gerbron, cafwyd fod 34 yn ei gefnogi a 6 yn erbyn. Ymhlith yr olaf yr oedd y Parchedig John Jones. R. Davies, Pen-y-garn a lywyddai yn y cyfarfod arall am bedwar o'r gloch, "ac wedi agor y cyfarfod cynnigiodd Mr. J. Davies, Bow Street fod y cyfarfod i gael ei gario yn mlaen yn Gymraeg ac eiliwyd ef gan Mr. J. Edwards; a chafwyd Parch W. Morgan yn gyfieithydd."[40] Unwaith eto gwelwyd ar unwaith fod gwrthwynebiad o du'r eglwyswyr, oherwydd siaradwyd yn erbyn sefydlu Bwrdd gan nifer ohonynt gan gynnwys y Parch John Jones, a oedd wedi dod ar frys mae'n debyg o'r cwrdd arall yn Llandre. Ond cario'r cynigiad o blaid y Bwrdd a wnaed y tro hwn hefyd. Meddai'r

gohebydd lleol a gofnododd yr hanes, "Fel hyn gwelir fod yr Eglwyswyr ar eu holl egni yn taflu rhwystrau ar ffordd addysg; etto ar yr un pryd dywedant yn ddigon gwynebgaled mai hwy ydynt yr unig bleidwyr gwirioneddol ag sydd yn gwneuthur fwyaf dros addysg y genedl."

Nid peth nodweddiadol o'r ardal hon yn unig oedd y gwrthwynebiad hwn o du'r Eglwys Sefydledig. Yn hyn o beth yr oedd yn ddrych o'r hyn a ddigwyddai ym mhob ardal yng Nghymru bron lle ceisid sefydlu BwrddYsgol, oherwydd yr oedd ymwybyddiaeth ymhlith eglwyswyr fod dyddiau eu hysgolion hwy, a'r math o addysg sectyddol a geid ynddynt, a'u cenhadaeth ar ran Eglwys Loegr, bellach wedi eu rhifo. Nid bwriad Deddf Addysg 1870 oedd diddymu'r cyfryw ysgolion, ond yn hytrach llanw'r bylchau a oedd yn bod yn y gyfundrefn addysg fel ag yr oedd. Arwydd o hyn oedd y ffaith fod y Ddeddf wedi cynyddu'r grant benodol a delid gan y Llywodraeth i'r ysgolion eglwysig, ond er gwaethaf hynny ni allai'r eglwyswyr lai na theimlo y byddai eu hysgolion hwy o dan anfantais go fawr ochr yn ochr â'r ysgolion Bwrdd newydd. Yn cystadlu â hwy bellach byddai ysgolion a lywodraethid gan fyrddau lle byddai ymneilltuwyr yn y mwyafrif bron yn ddieithriad; ysgolion a dderbyniai eu cyllid o'r trethi lleol ac a fyddai'n meddu ar yr hawl i orfodi plant i'w mynychu oni fyddai eu henwau eisioes ar lyfrau'r ysgol eglwys neu fod ganddynt reswm digonol arall. Mewn unrhyw ardal lle'r oedd Ysgol Genedlaethol yn bod eisioes, a symudiad ar droed yn yr ardal honno i ethol Bwrdd Ysgol, polisi'r blaid eglwysig bron bob amser oedd ceisio dal y llanw'n ôl, a hynny fel y gwelwyd a ddigwyddodd yn yr ardal hon.

Yn anffodus i ni heddiw, ar ôl cofnodi'r cyfarfodydd uchod yn y Borth, Llandre a Phen-y-garn, distawodd y gohebydd lleol dros dro ac aeth yn fud. Rhaid ceisio dyfalu beth a ddigwyddodd ar ôl hynny drwy ddarllen rhwng llinellau cofnodion diweddarach.

Ar ôl gweld fod teimlad cryf o blaid Bwrdd Ysgol yn y gymdogaeth tebyg fod cais ffurfiol am yr hawl i'w sefydlu wedi ei anfon i Lundain o un rhan o'r ardal o leiaf, a bod yr ymateb pan ddaeth yn un ffafriol oherwydd ar Awst 31ain, 1871 cyfarfu Bwrdd Ysgol Cyfoeth y Brenin am y tro cyntaf a hynny yn London House, Y Borth.[41] Dywedir yn y cofnodion iddo gael ei ethol ar Awst 4ydd y flwyddyn honno am gyfnod o dair blynedd ac enwir yr aelodau cyntaf. (Rhoddir mewn cromfachau y swyddi yr etholwyd rhai ohonynt iddynt cyn diwedd y cyfarfod). William Jones, Brynowen (Cadeirydd – ond ymddiswyddodd fis yn ddiweddarach), Richard James, Bryn-llys (Isgadeirydd), Abraham Jones, Richard Hughes ac A. L. Lewis, Swyddfa'r Post, y Borth (Clerc dros dro).

Y Bwrdd hwn bellach fyddai'n gyfrifol am ddarparu addysg ddyddiol gyson i blant Llandre, rhan o'r Borth, rhan o Ddôl-y-bont a'r aneddau o'u cwmpas. Ym mis Hydref 1871 talwyd 7/6 i un o aelodau'r Bwrdd – Richard Hughes – am fynd drwy Gyfoeth y Brenin i gyfrif pob plentyn o oedran ysgol, a chafodd nad oedd digon o le yn y tair ysgol o fewn ffiniau'r plwy – sef y ddwy yn y Borth a'r Ysgol Ramadeg yn Llandre – i'w cynnwys i gyd, ac y byddai angen ystyried darparu lle ychwanegol ar gyfer 107 ohonynt.

Ond yn y cyfamser rhaid oedd gwneud y gorau o'r ddarpariaeth a oedd wrth law. Ni fynnai'r eglwyswyr sôn am roi eu hysgolion hwy, yn y Borth a Llandre, o dan awdurdod y Bwrdd, ond cafwyd mwy o lwyddiant gydag ymmddiriedolwyr yr Ysgol Frytanaidd ym mhen ucha'r pentref. Cytunwyd i osod honno i'r Bwrdd am £10 y flwyddyn. Penodwyd gŵr o'r enw William Jones yn brifathro arni am gyflog ddechreuol o £75 y flwyddyn, a phenodwyd tri arall i'w gynorthwyo, sef D. George, a John Evans Taicanol (disgybl-athrawon) am £11 a £10 y flwyddyn, a Mrs. Margaret Davies i ddysgu gwnïo i'r merched ddwywaith yr wythnos am swllt y tro.

O bocedi'r trethdalwyr lleol, fel y dywedwyd, y dôi'r arian i hyrwyddo'r ysgol, ond daeth Bwrdd Ysgol Cyfoeth y Brenin wyneb yn wyneb ag anhawster ariannol ar unwaith oherwydd gwrthodai Goruchwylwyr (Overseers) y plwy dalu'r hyn a oedd bellach yn ddyledus arnynt, a bu'n rhaid gosod yr achos yn nwylo cyfreithwyr. A barnu yn ôl yr hyn a ddywed gohebydd a eilw ei hun yn "Baxter", y blaid eglwysig oedd y tu ôl i hyn i gyd.

Meddai ef:

> Nid oes ond ychydig y tu allan i'r ardal hon, fe allai yn deall yr helynt a'r anghydweledigiad parhaus sydd rhwng Eglwyswyr ac Ymneilltuwyr o barth cyfreithlondeb y bwrdd ysgol a etholwyd yma yn Awst 1871. Y mae'r Eglwyswyr yn parhau i ddywedyd nad yw y bwrdd wedi ei ethol yn rheolaidd ond gan y dywedir fod y bwrdd wedi penderfynu codi **mandamus** i'r dyben o gael barn . . . . yn y **Court of Queen's Bench** y **term** nesaf, ni wnaf yr un sylw pellach ar yr achos, o blegid ceir prawf teg pa un a yw y bwrdd wedi ei ethol yn rheolaidd ai nad yw.[42]

Llusgodd mater yr arian ymlaen am wythnosau, ond talu bu raid i'r Goruchwylwyr yn y pen draw. Tua diwedd ei adroddiad, meddai "Baxter" :–

Gobeithio y bydd i'r bwrdd wneud defnydd buan o'r **compulsory clause** sydd yn y **bye-laws**, o blegid y mae yma eto liaws o blant nad ydynt yn mynychu yr un o'r ddwy ysgol sydd yn y pentref.

Diau fod absenoldeb yn broblem go fawr pan oedd addysg orfodol yn syniad hollol newydd, ond fel y sylwyd yn barod, nid oedd lle i holl blant Cyfoeth y Brenin yn y tair ysgol a geid o fewn ei ffiniau, a rhaid oedd datrys y broblem honno rywsut neu'i gilydd. Gan mai yn y Borth ac nid yn Llandre yr oedd mwyafrif y plant yn byw (yn ôl tystiolaeth cofnodion y Bwrdd 20fed Tachwedd 1872), meddyliwyd yn gyntaf am godi ysgol fabanod yno a chreu drwy hynny mwy o le yn y tair ysgol arall, ond ni ddaeth dim o'r syniad hwnnw. Bu cryn ohebiaeth rhwng y Bwrdd a'r Adran Addysg ar y pwnc, ac er na chadwyd y llyfr lle copïd yr ohebiaeth honno gan y Clerc, mae'n weddol amlwg wrth ddarllen y cofnodion eu hunain fod yr Awdurdodau (ac un llygad o bosib ar y galw o weddill yr ardal am ddarpariaeth addysgol) yn pwyso ar y Bwrdd i ymestyn ei gortynnau a chodi ysgol neu ysgolion newydd ac ynddynt ddigon o le nid yn unig i'r plant oedd dros ben yng Nghyfoeth y Brenin ond hefyd i blant rhai o'r plwyfi o amgylch. Ac yn y diwedd, i'r cyfeiriad hwnnw yr aed, fel y gwelir wrth y cofnod canlynol dyddiedig 17eg Ionawr 1873:–

> (T)he Clerk read their Lordships' letter of the 11inst. It was proposed by Mr. T. James Morgan (aelod newydd a gymerodd le William Jones, Brynowen) and seconded by A. L. Lewis. That the Board deem it advisable to approve and adopt their Lordships' plan of uniting the three parishes or Townships of Cyfoeth y Brenin, Cynullmawr, Tirymynach and making Henllys (ychwanegwyd Broncastellan yn ddiweddarach) contributory to the same united district, which was agreed to. It was proposed by A. L. Lewis and seconded by Mr. T. J. Morgan. That a letter be written . . . . to the Department. . . . embodying the above resolution, and urging (upon) their Lordships the advisability of issuing their notices to the several Townships with as little delay as possible.

Ond oedi ac oedi drachefn fu hanes yr Awdurdodau, er mai eu cynllun hwy ydoedd, ac nid cyn Rhagfyr 1873 y llwyddodd y Bwrdd gael ganddynt anfon Hysbysiad Terfynol ynglŷn ag uno'r ardal o dan un Bwrdd Ysgol a darparu ar gyfer cynnydd yn rhif y plant drwy ganiâtau dwy ysgol newydd yng Nghyfoeth y Brenin, sef un yn y Borth[43] a'r llall yn Rhydypennau.

Un peth er hynny oedd cael yr Hysbysiad Terfynol mewn du a gwyn, ond mater arall oedd cael gwybod gan yr Adran Addysg pryd a sut y bwriadai ei weithredu. A beth oedd i ddigwydd i'r Bwrdd ei hun? Ai bwriad yr awdurdodau yn Llundain oedd ei ddiddymu ac ethol un newydd a fyddai'n cynrychioli'r ardal fwy, neu yntau a fwriedid ychwanegu aelodau ato o'r plwyfi newydd a fyddai o dan ei awdurdod? Yn ofer yr holodd y Clerc fwy nag unwaith am atebion i'r cwestiynau hyn. Yr oedd yr amser yn brin bellach gan fod tymor y Bwrdd yn dod i ben ym mis Awst 1874.

Yn y cyfamser yr oedd yr eglwyswyr yn dal i wingo yn erbyn y symbylau. Yn Chwefror 1874 ysgrifennodd offeiriad y Borth, y Parch D. Pughe Evans, lythyr at yr Adran Addysg yn Llundain yn gofyn a oedd modd iddynt newid neu leddfu ychydig ar eu Hysbysiad Terfynol, ond cafodd ateb swta yn dweud fod yr hyn a wnaed yn anghyfnewidiol. Galwodd gyfarfod arbennig o'r Festri i drafod y mater a chafwyd cyfarfod lled fywiog.[44] Ei gynllun ef oedd dileu Bwrdd Ysgol Cyfoeth y Brenin yn gyfangwbl ac anghofio am godi ysgol yn Rhydypennau. Yr oedd digon o dir, meddai, yn perthyn i'r Ysgol Genedlaethol yn y Borth i ganiatâu codi ysgol arall helaeth wrth ei hochr a fyddai'n cyfarfod â holl angenrheidiau addysgol y plwyf. Awgrymodd y dylid penodi pwyllgor i ofalu am fudd yr ysgol hon fel y gwneid (er na ddywedodd hynny) yn achos yr Ysgol Genedlaethol. Ymddengys iddo ennill peth cydymdeimlad oherwydd caniatâodd y cyfarfod iddo ysgrifennu eilwaith at eu Harglwyddi yn Llundain i ofyn iddynt ystyried ei gynllun, a gohiriwyd y cyfarfod am bythefnos i ddisgwyl ateb. Ni fynnai'r Awdurdodau syflyd fodd bynnag, a bu'n rhaid i D. Pughe Evans, ar ddiwedd y cyfarfod gohiriedig gyfaddef nad oedd modd osgoi cael Bwrdd Ysgol yn yr ardal a bodlonodd ar y cynigiad canlynol, a basiwyd meddai'r gohebydd a gofnododd yr hanes, am fod neb o'r rhai a siaradodd yn ei erbyn wedi llwyddo i lunio gwelliant boddhaol iddo:

> That this Vestry is of the opinion that in the event of a School Board being elected (in August) for this district, such members should be elected as are willing to work heartily in co-operation with the managers of the National School.[45]

Ym mis Gorffennaf 1874 siomwyd aelodau'r Bwrdd pan gyhoeddodd y Swyddog Etholiad yn Aberystwyth rybudd etholiadol yn galw ar drigolion Cyfoeth y Brenin yn unig i ethol Bwrdd Ysgol newydd. Mewn cyfarfod o'r Bwrdd ar y 13eg o Orffennaf penderfynwyd ysgrifennu llythyr eto at yr Adran Addysg – llythyr a ystyr id yn ddigon pwysig i'w gopïo i'r Llyfr Cofnodion:–

Sir,

The Returning Officer of the Aberystwyth union has issued notices for the re-election of a school Board for Cyfoeth y Brenin.

The Board has been repeatedly advised by you that it was their Lordships' intention to form a United district of the Townships of Cyfoeth y Brenin, Cynullmawr, and Tirymynach, and the Townships of Henllys and Broncastellan to be contributary to the said district; and a Final Notice to that effect was issued (at the) latter end of last year.

I am directed by the Board to ask if it is still their Lordships' intention to unite the said districts and form one Board of the whole. When is that to take place? And . . . . would it not be cheaper and better to have the whole Board for the said Townships elected at the same time?

I have the honour &c.....

A. L. Lewis

Bu'n rhaid mynd ymlaen â'r etholiad heb dderbyn ateb gan yr Adran Addysg ac ar Awst 13eg 1874 cyfarfu'r Bwrdd newydd am y tro cyntaf. Dyma enwau'r aelodau a'r swyddi a ymddiriedwyd iddynt: Enoch Watkin James, Bryn-llys (cadeirydd), James James, Dol-y-bont (is-gadeirydd), Morgan James, Ruel, William Williams, Lerry Villa, A. L. Lewis (Clerc). Fel yn achos yr hen Fwrdd cytunodd D. Jones, Banc y Provincial, Aberystwyth i weithredu fel trysorydd. Ond er newid y Bwrdd yr un oedd y problemau, ac un o'r cynigion cyntaf a basiwyd oedd un yn gofyn i'r Awdurdodau pa bryd y bwriadent weithredu yn ôl eu Hysbysiad Terfynol.

Er na ddywedir hynny yn y cofnodion, mae'n amlwg fod dymuniad y Bwrdd wedi ei wireddu yn achos Cynnull-mawr a Thirymynach erbyn mis Hydref, oherwydd o hyn ymlaen ceir tri pherson ychwanegol yn mynychu'r cyfarfodydd, sef Abraham James, John James a Jonathan Bunce Morgan. Pan ddaeth yn bryd i'r Bwrdd anfon y bil hanner blynyddol am gyfran o'r dreth ym Mawrth 1875 yr oedd disgwyl i Gynnull-mawr gyfrannu £13 a Thirymynach £6 at £17 Cyfoeth y Brenin. Nid oedd na Broncastellan na Henllys eto wedi ymuno, ond yn ystod 1874–5 bu'r Bwrdd yn gwasgu ar yr Adran Addysg i drefnu hyn fel bod cynrychiolaeth o'r plwyfi hynny hefyd

ar y Bwrdd a'u trethdalwyr yn cyfrannu tuag at addysg yr ardal. O hyn ymlaen, wrth gwrs, nid oedd yr enw Bwrdd Ysgol Cyfoeth y Brenin yn un manwl gywir, ond yn hytrach na'i newid daethpwyd dros ben yr anhawster drwy ei alw'n "Cyfoeth y Brenin United District School Board".

Daeth codi ysgol newydd bellach yn fater o frys, ac mewn cyfarfod o'r Bwrdd a gynhaliwyd ar Hydref 13eg, 1874 penderfynwyd ysgrifennu'n ddi-oed at H. C. Fryer, Lodge Park, goruchwyliwr stâd Gogerddan

> to ask him to appoint some convenient day to meet the Board at Rhydypennau for the purpose of conferring with him about the most eligible site to build a school thereon.

Y bwriad, yn ôl cofnod arall o'r un cyfarfod oedd codi ysgol ddwy ystafell – un i'r plant lleiaf a'r llall i'r bechgyn a'r merched hŷn gyda'i gilydd.

Llwyddwyd i drefnu oed â Fryer yn ymyl Pen-y-groes, Llandre yn nechrau mis Tachwedd, ac aeth aelodau'r Bwrdd yno i gyd i'w gyfarfod. Dangoswyd iddo'r llecyn lle hoffai'r Bwrdd godi'r ysgol (safle a oedd eisioes wedi ei chymeradwyo gan yr Awdurdodau yn Llundain, ac a oedd yn nes o dipyn i Rydypennau na'r fan lle codwyd hi, er na ddywedir yn union ymhle). Ond darn o dir yn ymyl y fynwent newydd a gynigiai Syr Pryse Pryse iddynt, meddai ei oruchwyliwr, ac er i'r Bwrdd mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar Dachwedd 24 ain geisio cael ganddo newid ei feddwl, ni fynnai'r bonheddwr wyro dim oddi wrth ei benderfyniad gwreiddiol ac ar Ionawr 5ed 1875 cytunodd yr aelodau "rather than displease Sir Pryse" i dderbyn ei gynigiad, a hefyd ei bris am dir ar y rhan honno o'i stâd, sef £100 yr erw.

Yn yr un cyfarfod gofynnwyd i'r Clerc lunio hysbyseb ar gyfer y **Cambrian News** a'r **Oswestry Advertizer** i wahodd cynlluniau a manylion ynglŷn â defnyddiau ar gyfer ysgol i 220 o blant. Erbyn Chwefror 2 daethai'r rheini i law a phenderfynodd y Bwrdd dderbyn y rhai a yrrwyd gan bensaer o'r enw Walter W. Thomas. Ysgrifennodd y Clerc ato ym mis Mawrth i ofyn iddo ddod i olwg y safle a marcio'r fan lle dylid dechrau cloddio, a rhoddwyd hysbyseb arall yn y **Cambrian News** yn gwahodd adeiladwyr i gynnig eu telerau am godi'r ysgol.

Daeth chwe chynnig i law, ac er na cheir manylion amdanynt yn y Llyfr Cofnodion, fe'u ceir o droi i'r **Cambrian News.**[46]

Dyma'u henwau a'u cynigion:

John Tudor	£1490
James Williams	£1339. 19. 6
David Jones	£1147
John Beynon	£1146
Daniel Hamer	£1126
Thomas Jones	£984. 18. 0

Penderfynwyd yn unfrydol dderbyn cynnig Thomas Jones y Dole ar yr amod ei fod yn gorffen y gwaith erbyn dydd Calan 1876,[47] ac aethpwyd ati ar unwaith i ysgrifennu at y "Public Works Loan Commission" i fenthyca £1100 (i'w dalu'n ôl dros hanner can mlynedd) i godi ysgol. Sicrhawyd yr arian erbyn mis Hydref 1875, ac mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar y 5ed o'r mis hwnnw penderfynwyd

> to advertise in the Baner ac Amserau Cymru for a teacher to Rhydypennau School.

Ymddangosodd yr hysbyseb am bythefnos ar dudalennau'r **Faner**, a daeth nifer o geisiadau i mewn. Ar Dachwedd 12fed penderfynwyd yn unfrydol benodi John Jones (o Gwmystwyth yn ôl yr addroddiad yn y **Cambrian News**)[48] i lanw'r swydd. Beth a ddigwyddodd i John Jones wedi hynny mae'n anodd dweud, ond ni chyfeirir ato ond hynny yng nghofnodion y Bwrdd, ac ym mis Ionawr 1876 ceir y Clerc yn hysbysebu am brifathro drachefn.

Ond yn y cyfamser – a darllen rhwng y llinellau, oherwydd cynnil iawn yw'r cofnodion – yr oedd y gwaith ar yr ysgol yn mynd rhagddo yn foddhaol, ac ar Rhagfyr 15fed penodwyd pedwar aelod o'r Bwrdd sef y Parch Enoch Watkin James, James James, y Parch T. J. Morgan (aelod newydd o'r Bwrdd ac yn cynrychioli Broncastellan) a J. Bunce Morgan, i fynd i olwg yr adeilad newydd ac i sicrhau fod y wal y tu ôl iddo yn "sufficiently high enough", a dod ag adroddiad yn ôl i'r cyfarfod nesaf. Ond ni sonnir wedyn am yr ymweliad, a rhaid casglu iddynt gael eu bodloni yn yr hyn a welsant, a bod Thomas Jones y Dole wedi bod cystal â'i air, ac wedi gorffen ei waith erbyn dechrau'r flwyddyn.

Ar 26ain o Ionawr 1876 ymddangosodd hysbyseb arall yn y **Faner** yn gwahodd ceisiadau am swydd prifathro i'r ysgol. Cyhoeddir mai ysgol ydyw i "120 mixed Boys and Girls, and 80 infants", a dywedir fod swyddog wedi ei benodi i sicrhau fod y plant yn ei mynychu'n rheolaidd. Gobeithir ei hagor, meddir, ddechrau mis

Ffoaduriaid o Wlad Belg, gyda'r Prifathro (Mr. James Davies) a Miss Mary Davies, Miss A. M. Hughes a Miss Nellie Jones, athrawesau. (1916)

Un o ddosbarthiadau'r ysgol (1924)

Plant ac athrawon
Ysgol Rhydypennau, tua 1936.

Plant Ysgol Rhydypennau heddiw
(Gŵyl Ddewi, 1976)

Golygfa o "Y Blodyn Glas" (1966)

Mr. James Davies

Mr. E. D. Jones

(Dau gyn-Brifathro)

Y Prifathro presennol, Mr. Eddie Jones, ger adeilad newydd yr ysgol.
(Gwelir yr hen ysgol yn y cefndir).



Mawrth. Fel o'r blaen daeth nifer o geisiadau i law – er na ddywedir yn union faint – ac wedi darllen ac ystyried pob un yn ofalus

> and after commenting on the merits of the several applicants it was proposed by Mr. John James and seconded by James James that D. W. Evans should be appointed which was agreed to as follows – to receive Seventy pounds from the Board, the school fees and four fifths of the grants.

Anaml iawn – gwaetha'r modd – y cynhyrfid gohebyddion lleol yr ardal hon ganrif yn ôl i ysgrifennu i'r wasg a chofnodi ei hynt a'i helynt, ond teimlodd un a ysgrifennai o dan y ffugenw "Abercaeronian" fod codi ysgol newydd yn y fro yn ddigwyddiad a haeddai sylw, a gyrrodd air amdani i'r **Faner**. Gwelir o ddarllen ei baragraff fod yr ysgol, erbyn diwedd Chwefror 1876, yn barod i dderbyn y plant; bod y Bwrdd eisioes yn paratoi am ymdrech arall, a bod yr hen anghydweliadau rhwng ymneilltuwyr ac eglwyswyr yn marw-losgi o hyd:

CYFOETH Y BRENIN

> Y bwrdd ysgol. Y mae y bwrdd hwn wedi codi ysgoldy cyfleus a manteisiol i 200 o blant, gyda chwaraele cauedig, a phob anhebgorion ereill, ar un o'r llanerchau prydferthaf yn y fro – rhwng y Garn a Llanfihangel. Y mae'r adeilad yn glod i'r adeiladydd – Mr. Jones, Dole. Agorir hon dan athraw trwyddedig y mis nesaf. Clywais fod y Bwrdd yn chwilio am le i godi ysgoldy arall yn Morfa Borth i 200 o blant. . . .[49] Byddai yn un o'r bendithion mwyaf i'm tyb i, pe gwnai y parchedig Ficer roddi yr Ysgoldy Cenedlaethol dan y bwrdd . . . .[50]

Agorwyd ysgol Rhydypennau ar 27ain o Fawrth 1876 gyda David W. Evans yn brifathro arni, ac un disgybl-athro, Robert Bishop, yn ei gynorthwyo. Ni chafwyd seremoni o unrhyw fath ar y diwrnod cyntaf hwnnw, ond rhyw bythefnos yn ddiweddarach – Ebrill 12fed – rhoddwyd te-parti i'r plant yn y prynhawn, a chynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus a ystyr id yn agoriad swyddogol yn yr ysgol y noson honno.[51]

Dengys Llyfr Cyfrifon Ariannol y Bwrdd[52] mai'r hyn a gostiodd yr ysgol i'w chodi – gan gynnwys tâl y pensaer a'r cyfreithwyr a baratôdd y gweithredoedd – oedd £1097.14.9, ond bu'n rhaid talu £19.3.0 yn ychwanegol i Thomas Jones cyn diwedd y flwyddyn am godi'r wal sydd rhwng yr iard a'r ffordd dair troedfedd yn uwch.

Bellach, fel y gwelir wrth ddarllen y detholiad o Lyfrau Cofnodion y prifathrawon sy'n dilyn, âi'r ysgol yn rhan annatod a phwysig o fywyd yr ardal, lle câi cenhedlaeth ar ol cenhedlaeth o blant eu haddysgu wrth draed athrawon cydwybodol a galluog. Hyfryd yw meddwl, a hithau ar drothwy ei hail ganrif, na ddaeth ei defnyddioldeb i ben o bell ffordd, a bod lleisiau plant i'w clywed o hyd rhwng eu muriau.

NODIADAU

Hoffwn ddiolch i'r cyfeillion canlynol am yr help a gefais ganddynt wrth baratoi'r ysgrif uchod: Mrs. Myfanwy Thomas, Mr. Alfred Edwards, Ruel Uchaf, Mr. Ieuan Evans, Ruel Isaf, Mr. Eddie Jones, Dryslwyn, Mr. Hywel W. Jones, Dole, Mr. Iorwerth Jones, Garth Lwyfen, Mr. Michael Jones, Bryncastell, a Mr. Vernon Jones, Gaerwen. Elwais hefyd ar gymwynasgarwch Mr. David Jenkins, M.A., y Llyfrgell Genedlaethol, a'm gwraig.

1. Dyfynnir yn George Eyre Evans : **Cardiganshire. Its Antiquities** (Aberystwyth 1903) tt. 207 – 8.

2. Samuel Rush Meyrick : **The History and Antiquities of the County of Cardigan** (London 1808) t. 431.

3. I Mr. Alfred Edwards yr wyf yn ddyledus am fy rhoi ar drywydd ysgolion Griffith Jones yn yr ardal.

4. **Welch Piety : or a farther account of the circulating Welch Charity Schools . . . . 1765 . . . . 1766** t. 26.

5. Bu John Richard yn cadw ysgolion hefyd yn Llangynfelyn a Llanbadarn-fawr.Mewn llythyr at Mr. Alfred Edwards (Awst1956) mae'r diweddar Bob Owen, Croesor yn holi tybed ai hwn "ddaeth gyda hyn yn enwog fel Emynydd a Chrefyddwr efo'r MC yn ardal Llanrwst".

6. Am hanes yr ysgol hon gw. erthygl David Samuel 'Ysgol Llanfihangel Geneu'r Glyn' yn **Cymru** vi (1894) tt. 277 – 284. Pwysir yn drwm ar yr erthygl hon yn y sylwadau sy'n dilyn.

7. Thomas Charles Edwards : **Bywyd a Llythyrau y Parch Lewis Edwards** (Liverpool 1901) t. 9.

8. **Reports of the Commissioners of inquiry into the state of education in Wales . . . . . 1847.** Vol ii. t. 164.

9. **ibid.**

10. **ibid**. t. 77.

11. W. Keri Evans a W. Pari Huws : **Cofiant y Parch David Adams** (Lerpwl 1924), t. 7.

12. **Cambrian News** (6 Mawrth 1874) t. 3. Am ragor o fanylion am E.W.J. gw. John Evans : **Yr Ail Fyr-gofiant** (Dolgellau 1908), tt. 67 – 85. Diolchaf i Mr. Vernon Jones am y cyfeiriad hwn.

13. **Reports of the Commissioners** . . . . . 1847. Vol ii. t. 159.

14. **ibid.** t. 165.

15. **ibid.**

16. **ibid.**

17. **ibid.**

18. **ibid.**

19. Daniel Thomas : **Dail yr Hydref, sef Adgofion am Dol-y-bont, Llanfihangel-Geneu'r – Glyn a Rhos-y-gell** (Dinbych 1916), t. 10. Mr. Alfred Edwards a dynnodd fy sylw at y llyfr hwn.

20. **ibid.** 36.

21. **ibid.** 12.

22. Merch i Jane Watkins, Brysgaga a David Humphreys o Landyfaelog. Ganed hi yn Llandyfaelog ym 1836 a phan oedd yn 23 oed aeth i Lundain lle cyfarfu â Robert J. Davies a'i briodi ym 1863. Aethant i fyw i'r Cwrt Mawr, Llangeitho, a mab iddynt oedd J. H. Davies, prifathro Coleg Aberystwyth 1919 – 1926. Ceir peth o hanes Frances yng nghofiant T. I. Ellis i'w mab **(John Humphreys Davies 1871 – 1926** (Lerpwl 1963)), ond ni ddywedir yno iddi gadw ysgol ym Mhen-y-garn. Cyfeirir er hynny (t. 19) at yr hanes iddi "farchogaeth yr holl ffordd o Landyfaelog i Ben-y-garn (tua 60 milltir)", sy'n awgrymu ei bod yn cadw cysylltiad ag ardal enedigol ei mam. Mae'n bosibl iddi gynnal ysgol yno am ryw hyd cyn ymadael am Lundain.

23. **Yr Haul . . . . am 1843** (Cyf. viii) t. 198.

24. **Capel y Garn 1793 – 1966. Trem yn ôl** . . . . t. 16.

25. Yn y Llyfrgell Genedlaethol (Awdurdod Addysg Lleol, Ceredigion 135 A).

26. Gwybodaeth gan Mr. Deulwyn Morgan, Felingyffin.

27. Yn y Llyfrgell Genedlaethol (Awdurdod Addysg Lleol, Ceredigion 137 B).

28. **ibid.** (Awdurdod Addysg Lleol, Ceredigion 119 A).

29. **Capel y Garn 1793 – 1966. Trem yn ôl** . . . . t. 18.

30. Daniel Thomas : **Dail yr Hydref** . . . . t. 72.

31. **Capel y Garn 1793 – 1966. Trem yn ôl** . . . . t. 18.

32. E. D. Jones : 'Hanes yr hen Ysgol' (erthygl fer yn **Rhaglen Seremoni Agoriadol Ysgol Gynradd Newydd Rhydypennau** . . . . Mawrth 1974).

33. **Capel y Garn 1793 – 1966. Trem yn ôl** . . . . t. 18.

34. **Reports of the Commissioners . . . . 1847. Vol. ii** t. 254.

35. **Llawlyfr Undeb** (yr Annibynwyr) **Gogledd Ceredigion** 1955, tt. 13 – 18 (wedi ei godi o Azariah Shadrach : **Cerbyd o Goed Libanus** . . . . 1840).

36. **ibid.** t. 28.

37. Yn y Llyfrgell Genedlaethol (L1GC (Mân Adneuon) 359–60 B).

38. Gw. e.e. **Seren Cymru** (6 Mawrth 1868 a 7 Hydref 1870).

39. **Baner ac Amserau Cymru** (8 Chwefror 1871), t. 10.

40. **ibid.** (1 Mawrth 1871), t. 5.

41. Mae llyfrau cofnodion y Bwrdd ynghadw yn y Llyfrgell Genedlaethol (Awdurdod Addysg Lleol, Ceredigion 148a, I, II, III). Y cyntaf ohonynt yn unig sy'n berthnasol i'r ysgrif hon, ac ohono ef y dyfynnir o hyn i'r diwedd oni nodir yn wahanol.

42. **Baner ac Amserau Cymru** (15 Mai 1872), t. 11.

43. Dengys llyfrau cofnodion y Bwrdd yn nes ymlaen mai addasu'r hen ysgol ym mhen ucha'r Borth a wnaed yn y diwedd, ac nid codi un newydd yno.

44. **Cambrian News** (6 Mawrth 1874), t. 3.

45. **ibid** (20 Mawrth 1874), t.olaf.

46. **ibid.** (16 Ebrill 1875), t. 5.

47. **ibid.**

48. **ibid.**(19 Tachwedd 1875), t. 8.

49. Gw. nodyn 43 uchod.

50. **Baner ac Amserau Cymru** (26 Chwefror 1876), t. 5.

51. Gw. 'Log Book' cyntaf yr ysgol gogyfer â'r dyddiad hwn.

52. Yn y Llyfrgell Genedlaethol (Awdurdod Addysg Lleol Ceredigion 148b I).

PIGION O'R LLYFRAU COFNODION

EXTRACTS FROM THE SCHOOL LOG BOOKS

1st week ending 31. 3.1876	I, David W. Evans, took charge of this school March 27, 1876, having as my pupil teacher Robert O. Bishop.
3rd week ending 13. 4.1876	Tea party was given to the children on Thursday afternoon and a public meeting held in the evening at the school. Considered as formal opening of school.
5th week ending 28. 4.1876	Taught children two new songs (Sankey's). Warned them against the bad practice of low vulgar language.
6.10.1876	This week the children were taught the Lord's Prayer and by the consent and directions of the School Board they were to repeat it every morning.
13. 1.1877	The 1st Class were started in French.
13. 1.1877	Reading and Spelling I found to be most backward subjects owing to the district being totally (almost) Welsh.
16. 2.1877	The children were forbidden to talk Welsh in School and in the playground which was enforced in order that they might be brought to pay more attention to English.
22. 6.1877	Found difficulty in securing punctuality in coming to school owing to the bell having gone out of order for the 5th time.
31. 1.1879	I paid particular attention to the Reading of the upper Standards this week. Found their pronunciation very "Welshy".
21. 7.1879	Today 5 children were admitted from Llanfihangel N. School, in consequence of that school having been closed.
17.10.1879	The attendance continues very low. From 152 children on registers the average for this week was only 107. I have sent a list of the most negligent children to the Board – urging for an immediate reform. The cause of the low attendance seems to be the potato and corn harvests as well as the fact that the Board seems afraid of prosecuting the parents for not sending their children to school regularly.
18. 6.1880	The Pupil Teacher disobeyed me this morning – having asked him to add the attendances in the registers he positively refused on the plea that he was engaged as a Teacher and nothing else.

18.12.1880	This week I have had to deal with a very bad habit which has sprung up among the boys, viz. **smoking**.
18. 7.1883	I took 94 of my own books to school to form a kind of Circulating Library for the Upper Standards.
24. 4.1885	Principal Edwards visited the School and was highly pleased with its appearance.
25. 9.1885	8 Boys were sent to collect manure for the flower garden.
9. 6.1890	French taught as a Specific Subject – 170 min. per week.
4. 9.1891	No fees were collected (save arrears) owing to the coming into force of the Free Education Act.
1.11.1893	Confusion caused by an outbreak of fire. While books were given out for reading, Margt. Ann Richards Pupil Teacher noticed flames above the ceiling and that the wooden frame holding the pipe in position was burning fiercely. The children were immediately sent into the other rooms and a few sent for ladders. Mr. J. T. Rees and Mr. Tom Davies, Bronceiro, and another man came in to assist.
16. 1.1894	The most backward children are continually absenting themselves. Excuses of illness are sent but they will be well enough on inspection day.
3. 6.1895	The Bilingual Reading Books "Ystraeon Hanes" were only received today.
6. 6.1895	A great many of the Third Standard cannot read Welsh – not even the most elementary words. Welsh Reading will thus have to be taught from the beginning.
16. 5.1904	I took the children this afternoon to Talybont to visit Wombwell's Menagerie.
23. 4.1906	School was not opened today owing to the death of our esteemed and beloved master (Mr. J. M. Williams) which took place April 20 after a long and painful illness.
1. 5.1906	5 or 6 children broke into the school during the Easter Holidays, smashed the Library and Museum.
17. 9.1906	I, James Davies, trained certificated teacher, commenced duties here today.
2. 4.1908	No school today. A Temperance Demonstration in town and a Cymanfa Pwngc in Church.
5. 1.1909	A piano was procured for the use of the school. The piano is worth £25 and the money is to be raised by collections and by a school concert. Sir Pryse, Gogerddan, very graciously headed the list with a donation of £2. The Education Authority contribute ¼ of the value, but

such sum is not to exceed £5.

15. 1.1909 Complaints received of the conduct of some of the boys. The teachers were engaged in giving a lesson in Drill to a class, when these boys were continually interrupting them. They had to resort to barricading the doors to prevent them intruding. Three of them then climbed up on to the window sill in the lobby in order to further annoy the teachers. When the master returned they were called to book, admitted their offence and they received 2 slaps each on their hands with a cane.

3. 2.1909 Mr. O. M. Edwards, Chief Inspector for Wales, paid a visit here today and declared himself well pleased with everything here.

15. 7.1911 The children were today taken to Aberystwyth to see the King and Queen who were visiting the town for the purpose of laying the foundation stone of the National Library of Wales. The children were taken down in conveyance provided by Sir Ed. W. P. Pryse, Bt.,Gogerddan. The arrangements made for the children were very disappointing.

2. 2.1914 A young girl from Penrhyncoch school presented herself for admission to this school today, but in accordance with a bye-law of the Education Committee "that children be not allowed to move from one school to another without satisfactory reasons" she was refused admission, pending inquiries as to the reason for removing from Penrhyncoch.

3. 2.1914 The father of the above girl called last night to explain the reason for transferring his daughter. He affirmed that he had no complaint to make against any of the members of the staff at Penrhyncoch, but considered that this school, being under a Master, was a more suitable school for grown-up children.

21.10.1914 Today, being Trafalgar Day, special lessons were given in the afternoon on Lord Nelson, our fleet, etc.

1. 3.1915 In accordance with instructions received from the Education Committee, today, being St. David's day, is set aside for the celebration of that day. The morning was devoted to the giving of special lessons on St. David, General Picton and Owen Glyndwr, the drawing of the leek and daffodil . . .

24. 1.1916 The school children were photographed today, . . . while the Belgian refugee children were with us.

17. 3.1916 A little girl from this school was seriously injured last

night by being knocked down by a motor car . . . in Bow Street.

30. 3.1916 Miss Eluned Morgan of Patagonia, author of "Dringo'r Andes" and other books, called at the school and addressed the children in Welsh.

11. 6.1918 Commencing today Cookery Lessons for Girls of the Upper Standards.

30. 4.1920 A small museum was this week presented to the school by Mr. J. T. Rees, Mus.Bac. It consists of a splendid collection of rare stones and fossils.

14.12.1923 Hot dinners for children started this week. The menu provided included Lentil Soup, Welsh Cawl, Stew.

26. 9.1924 We received a beautiful gramaphone and records of lectures on Music by Sir Walford Davies – Presented by Mr. Woodward Owen, High Sheriff of Cardiganshire.

30. 9.1924 Miss Davies, Infants Mistress is today retiring from the profession after serving at this school for a period of over 40 years.

8. 9.1925 It is with pleasure that I place on record the success of an old pupil of this school – Mr. Dewi Morgan, late of Garn House, in winning the chair for the best ode on "Cantre'r Gwaelod" at the National Eisteddfod, Pwllheli.

21. 7.1930 Mr. T. Ifor Rees, B.A., Consul at Bilbao, an old student of this school, presented the school with a framed copy of the Lord's Prayer in four languages – Welsh, English, Spanish and French.

30. 6.1933 At last, water is being brought to the school from the Llandre supply.

20.12.1938 *Y Prifathro, Mr. James Davies, yn ymddeol.*

17. 4.1939 I, E. D. Jones, of Penllwyn Council School, a graduate of the University of Wales, and a trained certificated teacher, having been appointed to the headship of this school commence duties here today.

9. 5.1939 P.C. Owen fitted the pupils for gas-respirators this afternoon.

11. 9.1939 There is now only one session per day, commencing at 8.30 and ending at 12.30. The building is used by pupils and staff evacuated from Anfield Road, Liverpool, in the afternoons from 1 to 5 o'clock.

17. 6.1940 For the first time milk was delivered in school today.

21. 3.1941 This week – Cardiganshire War Weapons Week – the school children have subscribed £150 to the Savings Movement.

22. 9.1941	This week jam is being made in school, under licence obtained from Jesus College, Oxford.
15. 5.1944	The sum of £1345 was subscribed through the School Savings Group to National Savings – "Salute the Soldier Week".
11. 7.1944	Thirty-four evacuated children (from London) are present today.
22. 1.1946	Dinner is served (in school) for the first time today.
4. 7.1946	13 lb. Beef had to be returned to the butcher today – the quality being much too poor. Price 1/- per lb.
14. 9.1948	Today, the Modern School, Alexandra Road, Aberystwyth, opens. 20 pupils from this school will attend it. (i.e. Rhydypennau becomes a Junior and Infants School only.).
1. 7.1949	Ddoe aeth llond bws o blant yr ysgol ar daith drwy Gymru, – Aberteifi – y castell; Nefern – y Groes Geltaidd; Pentre Ifan – Dolmen; Abergwaun . . . Mr. D. J. Williams yn arweinydd i'r parti o gylch y dref.
8. 6.1953	Yn ystod wythnos y Sulgwyn, ymwelodd parti o blant o'r ysgol â Maesteg i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Enillasant y lle cyntaf am ganu a chyd-adrodd i rai o dan ddeuddeg oed; cafodd un o'r plant yr ail le am ganu penillion gyda'r tannau.
26. 7.1966	Gorffennaf yma heno, ar ôl treulio dros saith mlynedd ar hugain yma.(E. D. Jones).
6. 9.1966	Yr wyf i, Edward David Jones, wedi cymryd drosodd yr awenau fel Prifathro o Fedi laf.
24.11.1966	Sefydlu Cymdeithas Rhieni ac Athrawon.
5. 9.1967	Agorwyd Ysgol Feithrin i blant rhwng 3-4 oed heddiw. Maent yn cyfarfod yn yr ystafell fechan o 9-11 a.m. fore Mawrth, Mercher a Iau. Gofelir amdanynt gan Mrs. Bethan Jones a Mrs. Gwerfyl Morgan.
6. 6.1968	Parti Recorders yn ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Llanrwst.
3. 9.1968	Nifer y plant yn yr ysgol : 73
20. 6.1970	Parti Recorders yn ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod Llanidloes.
4. 9.1973	Egyr yr ysgol heddiw yn ei chartref newydd ym Mhenygarn. Cedwir yr hen ysgol hefyd a'i throi yn Uned Feithrin i blant 3-5 oed.
8. 3.1974	Agoriad Swyddogol yr ysgol newydd.
1. 4.1974	'Rydym yn awr o dan Bwyllgor Addysg Dyfed.
6. 1.1976	Egyr yr Ysgol gyda 202 o blant ar y llyfrau.

RHAI ATGOFION

T. Ifor Rees

Cof gwael sydd gennyf am fy mebyd, ac am fy nyddiau cynnar yn Ysgol Rhydypennau. Ond credaf i mi gychwyn fy ngyrfa ysgolheigaidd, megis, yn y flwyddyn 1894, a minnau yn bedair blwydd oed. Y mae gennyf frithgof o fod yn eistedd mewn ffrog yn adran y plantos lleiaf, yr 'infants' fel y'n gelwid, dan lygad y Brifathrawes, Miss Mary Davies – 'Miss Defis' fel y gelwid hi gennym ni. Bum yn hir cyn sylweddoli nad un gair oedd 'Miss Defis'. Ystyrid Miss Defis yn athrawes ragorol, a pherchid hi yn fawr.

Yr oedd saith safon i'r ysgol, a adnabyddid fel *'standards'*. *Standard one, two, three, four, five, six, seven.* Caem ein symud bob blwyddyn o safon is i safon uwch. Wedi cyrraedd *standard five* deuem dan oruchwyliaeth y Prifathro, Mr. J. M. Williams y pryd hynny – brodor o Lanelli. 'Mistir' oedd yr enw oedd gennym ni arno bob amser, a *mistir* ydoedd hefyd. Cadwai ddisgyblaeth dda. Er mai Cymro Cymraeg ydoedd, ni sylweddolwn hynny ar y pryd, gan na chlywais ef erioed yn siarad dim Cymraeg yn yr ysgol. Ceisio ein gwreiddio yn y Saesneg oedd ei nod ef, a bu adeg pan geisiodd ein gwahardd i siarad Cymraeg pan allan yn chwarae. Cof da gennyf am bedwar ohonom yn cael ein cosbi am siarad Cymraeg. Yr oeddem wedi mynd i chwarae y tu ôl i'r ysgol – chwarae *marbles* – yn y gred ein bod allan o olwg ac o glyw y Mistir yn y fan honno. Ond yr oedd ef wedi dod allan drwy ddrws yr *infants* ac wedi bod yn gwrando yr ochr arall i'r mur a oedd yn gwahanu iard y merched oddi wrth iard y bechgyn. Y gosb a gawsom oedd aros ar ôl yn yr ysgol i ysgrifennu hyn a hyn o linellau, er na chofiaf beth oedd y frawddeg. Fodd bynnag, buan iawn y sylweddolodd Mistir mai ofer oedd ceisio gorfodi'r plant i siarad Saesneg, ac ni pharhaodd yn ei ymdrech.

Sôn am gosbi; y gosb a ofnid fwyaf oedd y wialen yn disgyn ar draws y llaw. Dim ond y bechgyn a ddioddefai oddi wrth y gosb hon. Pan welid Mistir yn dod i mewn i'r ystafell a phensil yn dynn ar draws ei geg, yr oedd rhywun yn lled sicr o deimlo blas y wialen. Credid fod poeri ar eich llaw a gosod blewyn o'ch gwallt yn y poer yn lliniaru'r ergyd. Diau mai seicolegol yn unig oedd y lliniaru.

Ein prif chwaraeon oedd *marbles,* chwarae pel, chwarae rownders, a chystadlu troi yr hyn a alwem ni yn 'gig', neu chwyrligwgan. *Top* neu *whirligig* yn Saesneg. Diau mai o'r gair Saesneg y cawsom ni'r gair 'gig' am y teclyn.

Ynglŷn â bwyd, nid oedd cinio ysgol i'w gael yr adeg honno, na bws na modur i gludo plant i'r ysgol. Rhaid oedd cerdded, hindda neu ddrycin, ac nid ar ffordd wedi ei thario ond ffordd leidiog neu lychlyd yn ôl y tywydd.

Yr oedd y plant a ddeuai o bell yn dod â thocyn gyda hwynt i'r ysgol. Dyna oedd y cinio. Yr oeddem ni yn Bronceiro yn ddigon ffodus o fod yn byw yn ymyl yr ysgol ac yn gallu rhedeg adref i ginio.

Yr hoff bwnc gennyf i ar ôl cyrraedd y safonau uchaf oedd Daearyddiaeth, ac yna gwneud mapiau a'u lliwio. Yr oedd llawer o fapiau ar y pryd hynny yn hongian ar y parwydydd, a chawn flas mawr ar gopïo'r rheiny.

Yr adeg honno hefyd rhoid tocyn i blentyn bob wythnos os byddai heb golli diwrnod o ysgol, ac ar ddiwedd y flwyddyn, hynny yw cyn gwyliau'r haf, rhoid gwobr fechan i'r plant oedd â'r nifer fwyaf o docynnau. Cofiaf i mi gael cyllell boced am un flwyddyn – gwobr dderbyniol dros ben. Flwyddyn arall cefais lyfr – 'Ivanhoe' o waith Sir Walter Scott. Y mae gennyf ryw syniad mai plant yn *standards five, six a seven* fyddai'n cael y tocynnau hyn.

Mae'n debyg y gallwn fynd ymlaen yn hir iawn, ar ôl dechrau, i sôn am lu o atgofion eraill am Rydypennau. Ond rhaid yw cau pen y mwdwl am y tro, gan ddymuno pob llwyddiant i'r hen ysgol ar ddechrau'r ail ganrif yn ei hanes.

OLD RHYPENNE

Tom Macdonald

Lucky are the children who have the village school on a hill, as we did, in the gem of old Rhydypennau – our Rhypenne. Lifting our eyes to the hills of Ruel and Tynrhos, dropping our eyes to read the ode of the valley, where our river went chuckling to the sea. The vista slipped into our hearts and minds in the school which itself was the heart of the three villages.

The school is the heart of any village. In so many Welsh villages they have died. What sorry ghosts these are, old graveyards where the laughter of children is smothered. And only the old go on pilgrimages now to remember their dreams.

This is the age when the town hall Concord mandarins, know-all economists and planners, think they know what is best for us. They decide the life or death of village schools. Old Rhypenne, I understand, was once on the list for the chop. But it is still a school for the tiny ones. It lives, and that is the important thing. And what a nest for little darlings it is. They look as if they have just stepped out of a children's beauty parlour.

They are new, pin clean. Their pretty clothes fit. Their doting mothers bring and fetch them in cars, or they come and go by bus. They are well fed like the lambs they are. It is right that nothing is begrudged children.

We were such a hobble-dy-hoi gangle in old Rhypenne. And we the old who are left with our memories, don't begrudge the gift of the new school to the bigger children in Benjie Baker's old field where we used to bait Benjie's savage ram. I remember a big Yorkshireman who wore clogs setting mole traps like exclamation marks in that field, now a playing field that is always green. The kids deserve a nice playing field and the school that looks like a ranch.

If old Dai Waunhir could come by now, he would snap a look at the ranch and another at the pile of the old school on the hill and pronounce: 'Bet you now the new won't wear like the old.'

But then, the old was built when a penny was money and the three villages were nests of craftsmen who only had barrows instead of bulldozers. The old playground was stone hard and it hurt when

you fell. Better to fall on cushiony grass. Better that children should have hot school meals.

In the old school let us close our eyes and put our fists through the cardboard of the years and listen to the parrotting of tables and laugh like brooks when Will bach is asked what eleven-elevens make and he calls back: 'Eleventy-leven.'

The little ghosts of a hundred years are there. Hobnailed boots clatter on the floor boards. You don't waste crayons. You weave paper mats in the Infants. You build towers with blocks. You write on slates with slate-pencils, and spit and wipe them dry for a new bash at letters or figures. And when you come to use paper you don't waste an inch. Nor ink. Nor time. You obey, because your teachers are gods.

All your lessons are in English except for the last hour period on a Friday, when you have that one lesson in Welsh. And by then you are tired. In the playground you play in Welsh.

Many kids have a long trek to school from the hill farms. On rainy mornings you sit in wet clothes for hours. And the winters have snowdrifts you never see these winters. In spring you walk through green magic. You linger to pop the seed pods of the stitchwort. You know the thrill of bird-nesting. In June you count the bells of the fox-gloves and save bees from spiders' webs. There's a nature lesson every day to and from Rhypenne.

Playtime. And the girls were supposed to play on one side of the yard, the boys on the other. But you would get the tomboy-girls at your marble games and kicking a ball. The girls in white pinafores, and some of them as beautiful as morning.

You had a dread of the bamboo cane. It hurt more in winter when two slashes seemed to cut into the bones of your hands, and you went back to your desk and sat on them to ease the pain. But you never cried.

Wild cherries for the picking in the hedges in the hills of Pwll-glas and chestnuts in season in the little wood of Llanfihangel when the noon break was never long enough . . . . . Summer evenings when you learned the art of catching trout when you watched the bigger boys fishing Afon Rhypenne.

We grew flowers against the school walls, a happy side to our

education. And sniffing the aroma of Mr. Davies's St. Julien pipe tobacco in that yard, there were boys among us who wanted to grow up quickly to enjoy a pipe as he did.

Now looking back the years seem to have gone like the zany flight of a butterfly. In the school we learned about life and death. The niches of toe-holds are still in the old wall separating the school from Garn cemetery. We climbed the wall for a grandstand view of the funerals. A hush would envelop us and the hills of Ruel would look like the hills of Caersalem.

And we who loved the old Rhypenne marvel now at her hundred years. She was a good Mother to thousands of children. A monument of dreams on a hill. Time has not scarred her dignity.

CYMHARU DWY YSGOL

Haydn Morgan

Mae fy atgofion i am Ysgol Rhydypennau dipyn bach yn wahanol, 'rwy'n meddwl, i atgofion y rhan fwyaf o'i hen ddisgyblion. Y rheswm am hynny yw mai'n hwyr yn fy nyddiau ysgol yr es i yno, gan i mi fod mewn dwy ysgol elfennol–Ysgol Clarach (Ysgol yr Eglwys) ac Ysgol Rhydypennau (Ysgol Bôrd, fel y galwem hi).

'Rwy'n meddwl mai i'r pumed dosbarth – *standard five* – yr es i gyntaf ar ôl symud i Ysgol Rhydypennau, ac 'rwy'n hollol siwr mai yno yr oeddwn erbyn cyrraedd standard VI, ac mewn trybini dychrynllyd gyda *"mathematics"*. Gan mor aml yr ymgodymai'r Scwlyn â ni ar ôl oriau ysgol (chwarae teg iddo, wrth edrych yn ôl!), gallwn feddwl mai dosbarth o'r twp i'r 'symol gyda symiau oedd y standard VI hwnnw, ac eithrio un – y diweddar Gwesyn Edwards, Pen-y-groes. Llawer "answer" (ateb i sym) a gefais gan Gwesyn!

Mae'n werth sylwi fod a wnelo'r helynt enbyd hwnnw gyda mathemateg â'r rheswm pam y symudwyd fi o Ysgol Clarach i Ysgol Rhydypennau. Os cofiaf yn iawn, yr oedd yn gyffredinol ddealledig yn yr ardal yr amser hwnnw nad oedd fawr o fathemateg yn Ysgol Clarach, ac nad oedd y plant yno'n cael hyfforddiant ar gyfer y "scholarship", ac mai **yr** ysgol, i gael yr hyfforddiant priodol, oedd Ysgol Bôrd. I Ysgol Bôrd â mi felly, ac yno wedyn yr aeth y plant iau – Dilys, Ceinwen, Megan, Elfed, Tegwen. Yn ddi-os, sêl fy nhad dros **Addysg** (ag "A" fawr) a achosodd y symudiad teuluol radical hwnnw. Am ryw ddwy flynedd brin, felly, y bum i yn Ysgol Rhydypennau gan i mi fynd i Lundain, yn bedair ar ddeg oed, i weithio ar rownd laeth ac i ddysgu gwneud fy ffortiwn, gan godi am hanner awr wedi tri bob bore! Ar ôl dal ati am ryw flwyddyn, a hiraeth bron â'm lladd, rwy'n cofio'n dda cyrraedd yn ôl i stesion Bow Street ar fore o wanwyn – yn fethiant llwyr ond yn llawen iawn o fod yn ôl yng nghanol gwyrddlesni a phersawrau'r wlad. 'Wn i ddim sut y cafodd fy rhieni fi i mewn i Ardwyn wedyn – rwy'n cofio clywed y gair "Bursary" – ond yno, yn 'Form 2B' y cefais fy hunan. Ond rwy'n crwydro . . .

Yr athrawon a gofiaf i yn Rhydypennau oedd Mr. James Davies, yr Ysgolfeistr (cof da amdano'n mynd allan tua chanol bob bore a pherarogl ei faco ar yr awel yn dweud ei stori!), Miss Nellie Jones, Miss Annie Mary Edwards, a Miss Davies gyda'r babanod. Erys mwynder dwys Miss Nellie Jones yn fy nghof byth. I'm cof i, tua 120 o enwau oedd ar restr yr ysgol yr adeg honno.

Er mor wahanol oedd awyrgylch y ddwy ysgol, 'roeddwn yn eitha hapus yn Ysgol Rhydypennau er gwaetha'r "syms" diddiwedd! Ond nid mor hapus, ar ryw ystyr, ag yn hen Ysgol Clarach. Ar fuchedd a moesau ac ymddygiad yr oedd y pwyslais yng Nghlarach, ond ar y tair "R" fel y dywedid, a'r "scholarship", yn Ysgol Rhydypennau. 'Rwy'n cofio fel y byddem, yn Ysgol Clarach, yn cerdded yn drefnus gyda'r ddwy athrawes i lawr i Eglwys Llangorwen bob Dydd Gŵyl Dewi, a Mr. Thomas, Offeiriad y plwy, yn cynnal gwasanaeth ac yn ein hannerch. Mae'n syndod fel y gall "pethau bychain" fel yna wneud marc a dylanwadu ar blentyn ar hyd ei oes. Roedd yr awyrgylch yn Ysgol Rhydypennau dipyn yn fwy bydol-ymarferol.

Mae Ysgol Clarach wedi ei chau ers rhai blynyddoedd bellach, a heidia'r plant oddi yno i ysgolion cymysgryw'r dre. Ond mae Ysgol Rhydypennau'n dal i fynd o nerth i nerth, wedi cael adeiladau newydd sbon, ac, yn arbennig, yn meithrin yr hen iaith a'n bywyd Cymreig. Hir y parhao hi ar i fyny!

"Y LLE BUM YN CHWARE GYNT . . . "

Ifor Davies

Credaf mai ym Mai 1909 y cychwynnais ar fy ngyrfa 'academaidd'. Roeddwn ar y pryd yn byw yn Glen View–Werndeg heddiw–a naturiol felly oedd i mi fentro ar daith i'r ysgol yng nghwmni merched y stesion. Cychwyn tua chwarter wedi wyth, er mwyn cyrraedd cyn canu o'r gloch. Cerdded y byddem yn fintai liwus, a'n bwyd ar ein cefnau.

Weithiau dôi ambell gert neu gambo heibio, a rhaid oedd cymryd mantais ohonynt. Dyna oedd y dull o symud o un lle i'r llall yr amser hynny. Ond, cyn hir, daeth lori i'r ardal – lori Gladwin. Cychwynnai ar ei daith feunyddiol ar amser cyfleus iawn i ni, a chyn cyrraedd Pen-y-garn, roedd ei lori yn llawn. Hen lori fawr a theiars caled ar ffordd anwastad, felly ni ellid ei galw yn daith esmwyth! Cyrraedd yr ysgol yn swil, a llygaid yr holl blant ar y newydd-ddyfodiad.

Os cywir fy nghof, yr oedd yno bedair athrawes, a meistr. Miss Mary Davies o Bow Street oedd yng ngofal yr 'infants', Miss A. M. Hughes o Ddôl-y-bont yng ngofal dosbarthiadau 1 a 2; Miss Maggie Hughes o Ben-y-garn a Miss Nellie Jones o Benrhiw (Bow Street) yng ngofal dosbarthiadau 3 a 4: a'r Prifathro, Mr. Davies, yn y rŵm fawr gyda dosbarthiadau 5, 6 a 7. O'r rhain, safon chwech oedd y pwysicaf – y 'scholarship class'. Caent hwy wersi wedi oriau ysgol.

Ar y pryd, 'roedd tua 120 o blant yn yr ysgol – o Landre, Dôl-y-bont, Penygarn a Bow Street. Ar wahan i'r rhai oedd yn byw o fewn cylch yr ysgol dôi dau fachgen o Benrhyncoch. Ai rhai o blant o ben isaf pentref Bow Street i Ysgol Clarach.

Saesneg oedd yr iaith y tu mewn i'r muriau, a Chymraeg y tu allan iddynt. Un wers yn y Gymraeg a gaem mewn wythnos. Llawer o sôn am arwyr Lloegr, megis Nelson, Wellington, Kitchener a'i debyg, – ond dim gair am Owain Glyndŵr na Llywelyn. Daearyddiaeth y 'British Dominions' a gaem yn bennaf; gwyddwn fwy amdanynt hwy nag am fy ngwlad fy hun. Ni ellir rhoi y bai i gyd ar yr athrawon; dyna sut yr oedd y gyfundrefn addysg Seisnig am ein dysgu. Er gwaethaf hyn, rhaid oedd i bob plentyn uniaith o Sais a ddeuai i'r ysgol ddysgu'r iaith Gymraeg os oedd am ymuno yn y chwaraeon. Cofiaf am bump o blant – Saeson uniaith o Lundain – yn dyfod yno, a chyn pen fawr o amser 'roedd y pump yn parablu'r Gymraeg cystal â minnau.

Gwerinol oedd yr ysgol, yn amddifad o bob snobyddiaeth. Efallai fod ambell un o'r athrawesau yn ffafrio rhai plant – roedd Miss Davies yn euog o hynny. Hi oedd yr hynaf ohonynt. 'Roedd ymhell dros ei thrigain oed pan welais hi gyntaf. Yno yr oedd pan aeth fy nhad i'r ysgol. Cadwai ei hoed yn dda – un dal, luniaidd, a cherddai'n syth a'i hosgo'n filitaraidd. Ni feddai y ddawn i ddenu plant. Am Annie Mary, roedd hi'n wahanol – llais cryf, ond bob amser yn llawen ac yn hawdd myned ati. Roedd ganddi ddigon o amynedd, hyd yn oed gyda'r rhai araf eu cynnydd. Ai hithau dros ben llestri weithiau pan aem yn afreolus. Cefais lawer clowten ganddi – ni ddefnyddai'r gansen, ond ein cyrraedd â'i llaw agored, ac roedd honno mor fawr nes cuddio ein wynebau. Ac yna Nellie Jones – yn hollol wahanol – un oriog iawn, un ai yn heulog braf fel haul Mehefin ynteu'n sobr ddifrifol ddwys fel prynhawn o Dachwedd. Defnyddai'r gansen, ond byddai'n dial am ddyddiau wedi'r gurfa. Ac ond odid nad âi a'r hanes i'n rhieni – a dyna goten arall! Wedyn dyna Maggie Hughes – un dawel iawn, yr un fath bob amser.

Gallaf ddweud yn hollol ddiffuant na roddai y Meistr ffafriaeth i un ohonom. Ystyrid ef yn ysgolfeistr llwyddiannus. Roedd mewn hiwmor dda bron bob amser, ond gwyddai sut i ddefnyddio'r gansen yn effeithiol. Cofiaf am un digwyddiad, pan wnaeth rhai ohonom yr hyn na ddylem (rwy'n credu mai smocio oedd y pechod y diwrnod hwnnw). Roedd Ifor – mab 'Davies' – yn un o'r pechaduriaid a phan ddaeth yr awr dyngedfennol, cafodd Ifor gymaint o gurfa ag unrhyw un ohonom.

Ymlaen yr aem o ddosbarth i ddosbarth, nes cyrraedd y seithfed, yn y rŵm fawr – i aros yno nes cyrraedd pedair-ar-ddeg oed – oedran y gollyngdod. Wrth gwrs, byddai rhai plant yn myned i'r Cownti Sgŵl o'r dosbarth 6 – rhai wedi ennill y 'scholarship', ac eraill yn blant i rieni ariannog a allai fforddio talu am eu haddysg. Ar wahân i ysgoloriaethau Pwyllgor Addysg y Sir, roedd yna ysgoloriaeth arall yn gyfyngedig i blant eglwys Llandre. Roedd siawns hefyd i adael yr ysgol ynghynt drwy basio y *Labour Exam.* Rwy'n tybio mai dod i rym a wnaeth honno yn ystod y Rhyfel Cyntaf er mwyn cael y bechgyn i weithio ar y tir. Wedi i'r storom honno dorri ar ein byd, cofiaf glywed y Meistr yn cyhoeddi fod un o'r hen ddisgyblion wedi ei ladd yn y Dardanelles yn 1915. Wallace Williams oedd y llanc hwnnw; ysywaeth clywyd cyhoeddi llawer enw arall wedi hyn.

Dyddiau mawr oedd y dyddiau y byddai'r ysgol yn torri fyny am y gwyliau, neu pan fyddai cŵn hela Syr Edward Pryse yn cwrdd yn Rhydypennau – 'Three Horse Shoes Inn' yr adeg hynny –

neu yn ymyl Dol-gau a elwid yn yr *Hunting Fixtures* yn 'Nowhere'. Siarsid ni, cyn gadael yr ysgol, i ddychwelyd yno ar ôl y 'meet'. Byddai amryw o ddesgiau gwag yn wynebu'r Prifathro y prynhawn hwnnw. Dôi syrcas a *menagerie* ar ei thaith flynyddol drwy'r ardal. Cofiaf yn dda fel yr hir ddisgwyliem yr eliffantod, ac o'r diwedd dyma ddau ohonynt yn dod. Roedd yna hogyn o'r enw Freddie Winton yn byw mewn bwthyn yng ngwaelod Bow Street, ac ar ei daith i'w gartre o siop Jane Prosser a thorth yn ei law dangosodd hi i'r eliffantod a rhyw hanner cellwair â hwy. Ond yn sydyn dyma un ohonynt yn ymestyn ei drwnc am y dorth a'i llyncu mewn eiliad. Bu'n rhaid i Fred fynd heb frecwast y bore hwnnw.

Byddai llawer o drefnu a pharatoi gogyfer ag ymweliad yr Inspector. Dôi i mewn yn dawel, yn drwsiadus ei wisg, a chymryd ei sedd yn ymyl y Meistr. Byddem ninnau oll yn dawel fel llygod, a'n trwynau bron yn cyffwrdd â'r gwerslyfrau. Ai o un ystafell i'r llall i wrando ar yr athrawesau yn dysgu, ond cyn mynd byddai'n sicr o ofyn cwestiwn neu ddau, ac os ceid atebion cywir dôi gwên i wynebau'r ddau.

Prin iawn oedd dŵr yr ysgol – un tap, yn rhan y bechgyn o'r iard, a deuai'r dŵr iddo o'r cae y tu ôl i'r ysgol. Sychai i fyny yn ystod misoedd yr haf, a phan ddoi'r dŵr i redeg eto ar ôl y sychder nid oedd yn lan. Gwelwyd malwod ynddo droeon. Anodd deall pam yr oedd yr awdurdod addysg mor ddifalio o beth mor rhad a phwysig â dwr.

Y chwaraeon oedd gennym oedd rownders, marblis, pel-yn-capie, 'cat-and-dog', chwipio tops, pysgod duon a phel-droed. Pob un yn Gymraeg, er yr enwau Saesneg.

Rhaid i mi sôn am un diwrnod arbennig sy'n aros yn fy nghof, – diwrnod y 'magic lantern'. Cawsom ein rhybyddio ymlaen llaw am ddyfodiad y dewin, er mwyn dod ag arian am gael mynediad i'r sioe. Fe ddaeth yr hen frawd a'i gêr ar ei gefn, a'i osod i fyny yn un o'r ystafelloedd. Aethom i mewn i'r tywyllwch, (oherwydd rhaid oedd cuddio pob ffenestr i gadw'r goleuni allan) i weld y rhyfeddod. Taniwyd yr offeryn oedd i daflu'r darluniau ar y sgrin, a dyma'r peiriant yn dechrau tuchan, gan chwythu mŵg i bob cyfeiriad. Go brin y gwelid y sgrin, heb sôn am y darluniau, a'r hen foi wrth geisio dangos darlun o dre hynafol yn gweiddi 'Jerusalem the Holy City'! Pan aethom allan o'r 'Black Hole of Calcutta', yr oeddem cyn ddued â'r blacs!

Daeth fy ngyrfa academaidd i ben ym mis Gorffennaf 1918, ychydig fisoedd cyn diwedd y Rhyfel. Roedd digon o waith i'w gael

yr adeg honno yn y gwahanol goedydd. Dyna'r pryd y torrwyd i lawr goed Gogerddan, Pwll-glas, Dol-gau, a Llandre, a'u hanfon i byllau glo y De fel *pit props.*

Do, daeth llawer newid dros yr hen ardal er y cyfnod hwnnw. Tai fel pe baent wedi tyfu arni, ac ar ei llwybrau wynebau dieithr. Onid gwir y dywedodd Goronwy Owen gynt:

> "Y lle bum yn chwarae gynt
> Mae dynion na'm hadwaenynt".

Cafodd yr ysgol gartref newydd, ond da o beth na thorrwyd y llinynnau sy'n ei chysylltu â'i chanmlwydd o draddodiad. Oherwydd tlws i'r clust yw clywed parabl plant bychain heddiw o gylch yr hen ysgol a adwaenem ni ar y bryn.

AMBELL ATGOF

T. Alfred Edwards

Gwrando gyngor, a chymer addysg, medd llyfr y Diarhebion. Mae hanes ddoe Rhydypennau yn dangos yn eglur fod yr hen dadau yn credu'n gryf yn y ddihareb yma, ac wedi gwneud ymdrechion mawr i roi addysg i'w plant.

Peth cymharol ddiweddar ydyw addysg gyfundrefnol yn yr ardal, ac yng Nghymru hefyd o ran hynny. Yr hanes cyntaf sydd gennym am ysgol rad yn y gymdogaeth yw un yn cael ei chynnal yn Ceiro Fach, yn y ddeunawfed ganrif, un o ysgolion Gruffydd Jones Llanddowror. Fferm fechan oedd Ceiro Fach, heb fod ymhell o Aberceiro, ond nid oes fawr o olion y lle erbyn hyn, ac y mae'r tir yn rhan o Ruel Uchaf. Wedi hyn, dechreuwyd cynnal Ysgol Ramadeg yn Llanfihangel Genau'r Glyn – ysgol a oedd yn nodedig iawn yn ei hamser.

Olynydd da i'r ysgolion yma oedd Ysgol y Cyngor, Rhydypennau, ac yn hon y cefais y fraint o fod yn ddisgybl. Ysgol wedi ei chodi ar lecyn delfrydol, ar ael y bryn, yn adeilad cadarn wedi ei gynllunio'n ddeallus.

Mr. James Davies oedd y Prifathro, gyda thair athrawes yn ei gynorthwyo, pan ddechreuais fynd yno'n dair a hanner oed. Byddai ambell *'pupil teacher'* yn dod yno 'nawr ac yn y man, i chwilio am brofiad. Roedd yr ysgolfeistr yn ŵr o'r radd flaenaf, 'roedd ganddo ddisgyblaeth dda ar y plant, a hynny oedd un o'r rhesymau am ei lwyddiant fel athro. Ond er hynny 'roedd y plant yn hoff iawn ohono, a chanddynt barch mawr tuag ato.

Athrawes y babanod ar y pryd oedd Miss Davies, 'roedd yn gymeriad arbennig, a chanddi ddawn i drin plant bach, heb eu 'difetha'. Chwarae â blociau pren a gwneud matiau, gwau stripiau o papur lliwiog, wedi ei sicrhau ar nodwydd ddur, a gwneud gwahanol batrymau oedd y gwaith a osodwyd inni, a dysgu adnabod llythrennau'r wyddor ac yn y blaen. Ymddeolodd Miss Davies mewn rhyw dwy flynedd a daeth Miss Annie Mary Hughes atom o Ddôl-y-bont, a bu hithau'n llwyddiant gyda'r plant lleiaf. Symud ymlaen o ddosbarth y babanod at Miss Gwladus Rees a oedd yn gyfrifol am ddosbarthiadau un a dau. Yno, byddem yn dysgu'r tablau a gwneud symiau, dysgu darllen ac ysgrifennu. 'Rwy'n sylweddoli erbyn heddiw yr amynedd dibendraw yr oedd ei eisiau gyda ni, ac un amyneddgar iawn oedd Miss Rees. Cael ein symud wedyn at Miss Annie Morgan i ddosbarthiadau tri a phedwar.

Merch ifanc o Flaenplwyf oedd Miss Morgan, ac o dan ei gofal hi fe aem ymlaen i ddechrau ysgrifennu traethodau, a dysgu llawer o farddoniaeth Saesneg ar y cof. Saesneg a ddefnyddid fwyaf yn y gwersi, ond Cymraeg oedd iaith chwarae.

Ysgrifennu ar lechi wnaem fel arfer yn y dosbarthiadau lleiaf, llechi tebyg i'r rhai a ddefnyddir i doi tai oeddynt, ond fod ffrâm bren o'u cwmpas, a phensel garreg i ysgrifennu arnynt. Byddai rhai o'r plant yn dod â lliain i lanhau'r 'slats', ond byddai eraill yn poeri arnynt, a'u sychu gyda llawes eu cot, arferiad afiach dros ben. 'Roedd cardiau glas a melyn ar waliau'r ystafelloedd yn gorchymyn 'Peidiwch â Phoeri' mewn llythrennau bras, rhag lledaenu darfodedigaeth a oedd y pryd hynny yn glefyd cyffredin ac angheuol. Am y rheswm yma o bosib y daeth yr arferiad o sgrifennu ar lechi i ben, a chawsom lyfrau ysgrifennu o hynny ymlaen.

Wedi treulio dwy flynedd gyda Miss Morgan, symudwyd ni i'r ystafell fawr, ystafell y prifathro. Dosbarthiadau pump, chwech a saith oedd dan ei ofal ef, a châi ei gynorthwyo weithiau gan y 'piwpil teachers'. Cofiaf i Miss Olwen Jones a Mr. Tecwyn Prichard fod yno am gyfnod, ond byddai Mr. Davies ei hun yn ein cymeryd ni yn y rhan fwyaf o'r testunau.

Pan oeddem tua un ar ddeg oed roeddem yn cael dewis, un ai mynd ymlaen i Ysgol Ramadeg Ardwyn, neu aros ymlaen yn Rhydypennau nes cyrraedd pedair ar ddeg oed. Os byddem yn dewis mynd i Ardwyn roedd yn rhaid eistedd arholiad. Rhaid felly fyddai mynd i Ardwyn ar ddydd Sadwrn tua dechrau Ebrill i eistedd y prawf mawr; fe gynhaliai'r prifathro ddosbarth arbennig i'n paratoi ymlaen llaw, oherwydd rhaid oedd llwyddo cyn y byddai dorau Ardwyn yn agor i ni. Fe fyddai nifer o'r goreuon yn cael ysgoloriaeth, a'r rhai aflwyddianus yn gorfod talu am eu hysgol, – ond 'roedd pawb yn talu am docyn trên.

Rwyf wedi sôn am y ddisgyblaeth dda oedd yn yr ysgol, ond nid oeddem yn angylion o bell ffordd chwaith, a bu achwynion lawer tro am afalau wedi diflannu'n sydyn o berllanoedd cyfagos. Y moddion anffaeledig at wella anhwylderau o'r fath (ym marn y prifathro, wrth gwrs) oedd y gansen bob amser.

Cyfnod o wrteithio ein meddyliau ieuanc oedd yr adeg a dreuliwyd yn Ysgol Rhydypennau, ein paratoi ar gyfer bywyd, a llwyddwyd i wneud hynny yn raenus iawn yn ôl safonau a disgyblaethau'r oes gan yr athrawon y soniais amdanynt. Mawr yw ein dyled iddynt.